Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CANLLAWIAU

Ymarfer, perfformio a chymryd rhan yn y celfyddydau perfformio: canllawiau ar gyfer dychwelyd yn raddol

Canllawiau ar gyfer coronafirws a gweithio'n ddiogel mewn celfyddydau perfformio.

Cyhoeddwyd gyntaf: 16 Medi 2020

Diweddarwyd ddiwethaf: 16 Tachwedd 2020

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://llyw.cymru/ymarfer-perfformio-chymryd-rhan-yn-y-celfyddydau-perfformio-canllawiau-ar-gyfer-dychwelyd-yn-raddol** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Cynnwys

1.0 Cyflwyniad

2.0 Sut i ddefnyddio'r canllawiau hyn

3.0 Rheoli'r rheini sy'n ymwneud â'r celfyddydau perfformio

4.0 Rheoli cynulleidfaoedd a pherfformiadau

5.0 Glanhau gwrthrychau, cyfarpar ac amgylcheddau

6.0 Cyfathrebu

Cydnabyddiaethau

1.0 Cyflwyniad

Rydym yn falch o fod yn genedl sy'n gwerthfawrogi'r celfyddydau. Mae nifer mawr o bobl yn mwynhau gweithgareddau creadigol o bob math, ac yn cymryd rhan ynddynt, p'un a ydynt yn weithwyr proffesiynol ai peidio. Mae'r celfyddydau yn tynnu sylw at yr amrywiaeth eang o strategaethau sy'n sail i fywyd cyhoeddus ac yn rhoi bywyd iddynt. O'r celfyddydau ac iechyd i dwristiaeth ddiwylliannol, o gelf gyhoeddus i adfywio canol trefi, daw'r celfyddydau ag ystyr, dilysrwydd a mwynhad i'n bywydau pob dydd. Maent yn creu ac yn cynnal swyddi, yn cyfoethogi gwasanaethau addysg, ac yn dwyn pobl ynghyd. Mae'r celfyddydau yn gwella ansawdd ein bywydau a llesiant y genedl.

Felly, mae'r argyfwng iechyd y cyhoedd sy'n gysylltiedig â phandemig y coronafeirws wedi creu heriau digynsail ers mis Mawrth. Mae hyn wedi atal y rhan fwyaf o weithgareddau celfyddydau cyhoeddus.

> **Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
> Ewch i **https://llyw.cymru/ymarfer-perfformio-chymryd-rhan-yn-y-celfyddydau-perfformio-canllawiau-ar-gyfer-dychwelyd-yn-raddol** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
> Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Wrth i'r cyfyngiadau yng Nghymru ddechrau llacio, bydd mwy a mwy o gyfleoedd i fwynhau'r celfyddydau a chymryd rhan ynddynt. Mae gweithwyr llawrydd a sefydliadau ym myd y celfyddydau yn awyddus i ddychwelyd i'r gwaith a byddant yn gobeithio gwneud hynny cyn gynted â phosibl. Ond rhaid i'r cynnydd gael ei gydlynu'n ofalus, ac iechyd ein pobl yw'r brif ystyriaeth. Dylid cofio ei bod hi'n bosibl ailgyflwyno'r cyfyngiadau ar ôl iddynt gael eu llacio os bydd angen.

Ar hyn o bryd nid yw Theatrau na Neuaddau cyngerdd yn cael agor. Mae'r canllawiau hyn wedi cael eu datblygu i nodi'r egwyddorion dylech chi eu hystyried er mwyn cefnogi dychwelyd i waith. Maent yn cefnogi'r fframwaith a'r rheoliadau cenedlaethol sydd ar waith yn dilyn 'cyfnod atal byr' mis Hydref ac maent yn cynnwys canllawiau lefel uchel i sefydliadau ac i unigolion yn y celfyddydau perfformio yng Nghymru sy'n ymarfer, yn cyflwyno, neu'n cymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol. Maent yn ychwanegol i'r canllawiau a gyhoeddwyd eisoes gan Lywodraeth Cymru er mwyn helpu'r rheini sy'n **rheoli theatrau, canolfannau celfyddydau, orielau, a lleoliadau eraill lle mae'r gweithgareddau celfyddydol yn cael eu cynnal**.

Mae'n hollbwysig edrych ar wefan Llywodraeth Cymru i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am y cyfyngiadau sydd ar waith gan fod y sefyllfa'n newid yn aml. Mae'r rheoliadau diweddaraf ar gael ar **wefan Llywodraeth Cymru**. Mae **canllawiau** a chyfres o **gwestiynau cyffredin** yn cael eu cyhoeddi i gefnogi unrhyw newidiadau.

Mae'r canllawiau hyn yn seiliedig ar sgwrs barhaus rhwng Llywodraeth Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru a'r sector celfyddydau a diwylliant. Dylid eu hystyried fel canllawiau byw a gaiff eu diweddaru'n rheolaidd wrth i'r amgylchiadau newid. Mae'n sgwrs a fydd yn gofyn cwestiynau trylwyr ynghylch sut y bydd y sector yn gweithredu yn y dyfodol ac ar gyfer pwy y mae. Er gwaethaf yr argyfwng ar hyn o bryd, mae cyfle i feddwl mewn ffordd greadigol a dewr am fath gwahanol o ddyfodol. Mae cymdeithas gynhwysol, deg a hael yn gynhwysol yn ei hanfod ac mae'n ymdrechu i sicrhau hawl cymdeithas gyfan i rannu ei chyfoeth diwylliannol a chymryd rhan ynddo, yn enwedig pan gaiff ei gyllido gan y trethdalwr i raddau helaeth.

Mae Cymru wedi cynnwys ei hymrwymiad i lesiant ei holl ddinasyddion mewn deddfwriaeth. Ac er mwyn sicrhau bod Cymru yn deg, yn ffyniannus ac yn

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://llyw.cymru/ymarfer-perfformio-chymryd-rhan-yn-y-celfyddydau-perfformio-canllawiau-ar-gyfer-dychwelyd-yn-raddol** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

hyderus ar ôl COVID-19, gan wella ansawdd bywyd pobl yn ei holl gymunedau, rhaid i'r sector diwylliant chwarae ei ran yn gwneud y dewisiadau a fydd yn galluogi hyn i ddigwydd wrth i'r gweithgareddau ailddechrau.

2.0 Sut i ddefnyddio'r canllawiau hyn

ond i weithgareddau a ganiateir gan reoliadau'r llywodraeth y mae'r canllawiau hyn yn gymwys. Ceir rhagor o wybodaeth am y rheoliadau hyn: **Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 4) (Cymru) 2020 (fel y'u diwygiwyd) ("rheoliadau COVID-19")**

Dylai pob sefydliad, gweithiwr, person hunangyflogedig a chyfranogwr ystyried sut mae rhoi'r canllawiau hyn ar waith mewn ffordd benodol. Bydd beth yn union y byddwch yn ei wneud yn dibynnu ar natur eich gweithgaredd, maint eich sefydliad a'r math o sefydliad ydyw, a'r ffordd y caiff ei drefnu, ei roi ar waith, ei reoli a'i reoleiddio.

Nid yw'r canllawiau hyn yn drech nag unrhyw rwymedigaethau cyfreithiol, gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch, cyflogaeth neu gydraddoldeb. Mae'n bwysig eich bod chi, fel sefydliad neu gyflogwr, yn parhau i gydymffurfio â'ch rhwymedigaethau presennol, gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud ag unigolion â nodweddion gwarchodedig.

Wrth ystyried sut i roi'r canllawiau hyn ar waith, dylech ystyried gweithwyr asiantaeth, gweithwyr llawrydd, contractwyr, gwirfoddolwyr, cyfranogwyr a phobl eraill, yn ogystal â'ch cyflogeion. Hefyd, dylech sicrhau na fydd dim rydych yn bwriadu ei wneud yn gwahaniaethu nac yn golygu y gallai arwain at anghydraddoldeb. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi **canllawiau i helpu cyflogwyr i ddeall eu cyfrifoldebau ac i alluogi gweithleoedd i weithredu mewn ffordd mor ddiogel â phosibl**. Yn ogystal, mae rhaid i bob gweithle a safle sy'n agored i'r cyhoedd roi pob **mesur** rhesymol ar waith i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r feirws ac ystyried canllawiau Llywodraeth Cymru ar sut mae gwneud hynny.

Bydd gweithgareddau'n cael ailddechrau ar adegau gwahanol. Mae hyn yr un mor berthnasol i ailagor gofod ymarfer a pherfformio, sy'n cael ei ystyried yn

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://llyw.cymru/ymarfer-perfformio-chymryd-rhan-yn-y-celfyddydau-perfformio-canllawiau-ar-gyfer-dychwelyd-yn-raddol** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

ofalus ac a fydd yn cael ei adolygu'n rheolaidd wrth inni symud ymlaen. Oherwydd y cyfyngiadau yn sgil y **gofynion i gadw pellter cymdeithasol**, bydd rhai gweithgareddau yn gallu ailddechrau cyn rhai eraill.

Mewn ymateb i'r canllawiau hyn, dylai eich cynlluniau fod yn gymesur ac yn hydrin o fewn pa bynnag gyfyngiadau ariannol rydych yn gorfod eu rheoli. Dylech adolygu eich cynlluniau yn rheolaidd, a mabwysiadu dull gofalus a graddol o ailddechrau cynnal gweithgareddau. Chi fydd yn dewis sut y byddwch yn gwneud hyn, ond rhaid ichi weithio o fewn **rheoliadau COVID-19** a dangos yn glir bod gennych ddull rhagweithiol o hyrwyddo gweithio diogel.

2.1 Diffiniadau

Mae'r canllawiau hyn yn gymwys i'r rheini sy'n ymgysylltu mewn gweithgareddau yn y celfyddydau perfformio yn cynnwys perfformwyr (actorion, dawnswyr, cerddorion, perfformwyr eraill), hyfforddwyr, coreograffwyr, dylunwyr gwisgoedd, adeiladwyr setiau, cyfeilyddion, cyfarwyddwyr, rheolwyr llwyfan ac aelodau eraill o dimau cynhyrchu creadigol, technegol a gweithredol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt.

Maent hefyd yn gymwys i'r safleoedd a'r lleoliadau lle caiff gweithgareddau celfyddydol eu cynnal (p'un a ydynt yn rhai newydd neu sefydledig, yn rhai traddodiadol neu annhraddodiadol).

Maent gymwys i weithgareddau hyfforddi, ymarfer a chyn-gynhyrchu, a pherfformiadau a gynhelir gyda neu heb gynulleidfa fyw, lle bynnag y cynhelir y gweithgareddau hyn. Maent yn cynnwys opera, theatr gerdd, corau, bandiau pres ac arian, comedi ac ensembles perfformio eraill ym myd cerddoriaeth, dawns a theatr.

O fewn y celfyddydau perfformio, rydym yn cydnabod ei bod yn arfer cyffredin ichi weithredu yn eich safle neu leoliad eich hun neu yn safle neu leoliad trydydd partïon (dan do ac yn yr awyr agored). Efallai y byddwch hefyd yn llogi cyfarpar gan drydydd partïon. Mae'n debygol y bydd angen i grwpiau, sefydliadau a busnesau gydweithredu er mwyn sicrhau dull cyfunol o reoli risg a gweithio'n ddiogel.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://llyw.cymru/ymarfer-perfformio-chymryd-rhan-yn-y-celfyddydau-perfformio-canllawiau-ar-gyfer-dychwelyd-yn-raddol** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Dylid ystyried y canllawiau hyn fel ag y maent yn gymwys i brosesau **cynhyrchu cerddoriaeth, cynhyrchu teledu**, **addoldai**, digwyddiadau awyr agored a gwyliau, lleoliadau cerddoriaeth heb seddi dan do, bariau a bwytai yn cynnwys y rheini mewn neuaddau cymunedol, ysgolion, colegau neu brifysgolion.

2.2 Ailddechrau cynnal gweithgareddau

Dim ond o fewn cyd-destun rheoliadau COVID-19 a fydd yn gymwys ar y pryd y ceir ailddechrau cynnal gweithgareddau. Bydd y rhain yn cael eu diweddaru pan fydd Llywodraeth Cymru yn gwneud rhagor o gyhoeddiadau ar yr angen am gyfyngiadau (fel rheol mae hyn yn digwydd o leiaf unwaith bob 21 diwrnod mewn diweddariad gan y Prif Weinidog, ond mae'n gallu bod yn amlach).

Ym mis Awst 2020 cyhoeddodd y Prif Weinidog y byddid yn treialu digwyddiadau wedi'u trefnu yn yr awyr agored i brofi'r camau lliniaru a'r mesurau a oedd yn cael eu datblygu yn y canllawiau hyn. Bydd y treialon llwyddiannus hyn, ynghylch â'r hyn rydym yn ei ddysgu o ddigwyddiadau sy'n cael eu profi mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig, yn cyfrannu at adolygiadau o'r rheoliadau yn y dyfodol. Oherwydd bod y cyfraddau trosglwyddo'n uwch ar draws Cymru ddechrau'r hydref, mae'r rhaglen i brofi digwyddiadau wedi cael ei hatal ar hyn o bryd am gyfnod amhenodol.

Dylech hefyd ystyried y rheoliadau a'r canllawiau mewn meysydd bywyd eraill lle maent yn effeithio ar y ffordd rydym yn symud ymlaen.

Mae'r rhain yn cynnwys yr angen i:

- Wisgo gorchudd wyneb dan do.
- **hunanynysu gartref i unigolion ac aelwydydd sydd â symptomau'r coronafeirws**,
- Dylai'r rheini sydd wedi cael canlyniad positif am y coronafeirws neu sydd wedi cael gwybod gan swyddog olrhain cysylltiadau eu bod wedi cael cyswllt agos â rhywun sydd wedi cael canlyniad positif am y coronafeirws, hunanynysu ar unwaith yn unol â gofynion y rheoliadau.
- dilyn mesurau **cadw pellter cymdeithasol**, a thynnu sylw at bwysigrwydd y rhain cyn, yn ystod ac ar ôl digwyddiadau,

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://llyw.cymru/ymarfer-perfformio-chymryd-rhan-yn-y-celfyddydau-perfformio-canllawiau-ar-gyfer-dychwelyd-yn-raddol** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

- pan nad oes modd osgoi bod wyneb yn wyneb â rhywun, cymryd mesurau rhesymol eraill i gyfyngu ar hyn a chynnal hylendid a dilyn **canllawiau'r llywodraeth ar weithio mewn lleoliadau cyswllt agos** pan fo'n berthnasol;
- rhoi pob mesur rhesymol ar waith i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r feirws mewn gweithleoedd a mannau sy'n agored i'r **cyhoedd**
- dilyn y cyfyngiadau ar deithio allan o Gymru ac i mewn i Gymru ac ar ei thraws ynghylch **teithio**, **addysg a gofal plant**.
- cydnabod pwysigrwydd y strategaeth **Profi, Olrhain, Diogelu** a chydymffurfio â'r gofynion olrhain cysylltiadau.

Bydd angen ichi ystyried y cyngor a roddir i bobl sy'n wynebu **risg** uwch ac aelodau o gymdeithas sy'n eithriadol o agored i niwed a gafodd gyngor ar sail feddygol i **warchod** oherwydd problem(au) iechyd isorweddol difrifol. Bydd angen ichi adlewyrchu'r ffaith bod y grwpiau hyn mewn cymdeithas ymysg y rheini y gallai fod angen iddynt gymryd rhagofalon ychwanegol er mwyn diogelu eu hunain rhag y feirws.

Dylai sefydliadau ystyried amrywiaeth eang o gynlluniau wrth gefn fel rhan o'u cynlluniau. Lle bynnag y bo'n bosibl, dylai hyn gynnwys ceisio creu atebion hyblyg, diogel ac ymarferol y gellir eu hatal dros dro neu eu gwyrdroi'n gyflym os ceir achosion pellach o COVID-19 neu gyfyngiadau yn y dyfodol.

2.3 Cael y pethau sylfaenol yn gywir

Mae'n amhosibl bod yn bendant ynghylch yr union gamau y bydd angen ichi eu cymryd cyn y gellir ailddechrau cynnal gweithgareddau. Mae hyn yn atgyfnerthu pwysigrwydd asesiad risg manwl. Nid oes un ateb i'r risgiau cymharol dan sylw ym mhob math o weithgaredd ac ni all Llywodraeth Cymru gymeradwyo unrhyw ddull unigol. Yn y pen draw, arnoch chi a'ch sefydliad mae'r cyfrifoldeb. Felly, bydd disgwyl ichi ddangos eich bod wedi archwilio'r risgiau yn drylwyr ac wedi cymryd camau priodol i liniaru'r risgiau hynny.

2.4 Cydraddoldeb yn y gweithle ac wrth chwilio am waith

Atal perfformiadau byw a gweithgareddau diwylliannol i'r cyhoedd dros dro fu un

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://llyw.cymru/ymarfer-perfformio-chymryd-rhan-yn-y-celfyddydau-perfformio-canllawiau-ar-gyfer-dychwelyd-yn-raddol** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

o'r pethau a gafodd yr effaith fwyaf ar ymdeimlad cymdeithas o lesiant, yn ogystal ag economi'r celfyddydau. Fodd bynnag mae'n bosibl y bu effaith wahanol ar bobl sydd â nodweddion gwahanol ac mae hi'n bwysig iawn ac yn ofyniad cyfreithiol i bob un ohonom gydymffurfio â'r dyletswyddau o dan y Ddeddf Cydraddoldeb.

Wrth i weithgareddau ailddechrau cael eu cynnal ac wrth i gyfleoedd i gael gwaith ddod i'r amlwg, mae'n bwynt allweddol yn y gyfraith na cheir gwahaniaethu'n anghyfreithlon, yn y gwaith nac wrth chwilio am waith. Ni ddylid ystyried bod unrhyw gymuned – yn enwedig artistiaid Anabl/Byddar – yn ormod o "risg" mewn unrhyw broses asesu risg. Rhaid i brosesau o'r fath ystyried mynediad i bobl anabl ar bob lefel.

Wrth roi'r canllawiau hyn ar waith, dylai cyflogwyr a sefydliadau ystyried anghenion penodol gwahanol grwpiau o weithwyr neu unigolion.

- Mae hi'n anghyfreithlon gwahaniaethu (yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol), erlid neu aflonyddu ar unrhyw un oherwydd nodwedd warchodedig gan gynnwys: oed, rhyw, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, hil, crefydd neu gred, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd/mamolaeth a statws priodas neu bartneriaeth sifil.
- Mae cyfrifoldebau penodol ar gyflogwyr mewn perthynas â gweithwyr anabl a gweithwyr sy'n famau newydd neu fenywod beichiog.
- Dylai cyflogwyr a threfnwyr fod yn ymwybodol o'r ffaith bod gan y rheini a all fod yn chwilio am waith/sy'n ymgymryd â phroses castio a recriwtio yr un hawliau i gael eu diogelu rhag achosion o wahaniaethu o dan statud ag y rheini sydd eisoes yn cael eu cyflogi.

Felly, fel arfer, disgwylir ichi gymryd y camau canlynol:

- Deall ac ystyried **rhagor o ganllawiau** priodol ar y mater cymhleth hwn.
- Deall ac ystyried amgylchiadau'r rheini sydd â nodweddion gwarchodedig gwahanol, fel y rheini sydd â nam ar eu clyw neu ar eu golwg.
- Cynnwys gweithwyr y gallai eu nodwedd warchodedig eu hamlygu i lefel wahanol o risg a chyfathrebu'n briodol â nhw. Ymgynghori â nhw ynghylch unrhyw gamau rydych yn eu hystyried i gadarnhau nad ydynt yn amhriodol nac yn afresymol o heriol iddyn nhw.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://llyw.cymru/ymarfer-perfformio-chymryd-rhan-yn-y-celfyddydau-perfformio-canllawiau-ar-gyfer-dychwelyd-yn-raddol** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

- Cadarnhau a oes angen ichi roi unrhyw fesurau neu addasiadau ar waith i ystyried eich dyletswyddau o dan y ddeddfwriaeth Cydraddoldeb.
- Gwneud addasiadau rhesymol i sicrhau na fydd gweithwyr anabl dan anfantais. Asesu'r risgiau iechyd a diogelwch ar gyfer mamau newydd neu fenywod beichiog.
- Gwneud yn siŵr na fydd y camau byddwch chi'n eu cymryd yn cael effaith negyddol nad oes modd ei chyfiawnhau ar rai grwpiau o'u cymharu ag eraill, er enghraifft, y rheini sydd â chyfrifoldebau gofalu neu'r rheini sydd ag ymrwymiadau crefyddol.
- Gwneud ymrwymiad cadarnhaol i gyfathrebu mewn modd sy'n galluogi pob person i ymgysylltu'n llawn mewn gweithgareddau, yn cynnwys arwyddion gweladwy, dull priodol o ddyrannu seddi, mynediad i fesurau hylendid ac i gyfleusterau toiledau diogel sydd wedi'u neilltuo'n benodol i'w defnyddio gan bobl anabl.

2.5 Symptomau COVID-19

Dyma brif symptomau COVID-19:

- Tymheredd uchel: mae hyn yn golygu bod eich brest neu'ch cefn yn boeth wrth ei gyffwrdd (does dim angen ichi fesur eich tymheredd)
- Peswch cyson newydd: mae hyn yn golygu pesychu'n aml am fwy nag awr, neu 3 pwl neu fwy o besychu mewn 24 awr (os oes gennych chi beswch fel rheol, gallai fod yn waeth na'r arfer)
- Colli neu newid yn eich synnwyr o flas neu arogl: mae hyn yn golygu eich bod wedi sylwi na allwch chi arogli neu flasu unrhyw beth, neu mae pethau'n arogli neu'n blasu'n wahanol i'r arfer

Os byddwch chi'n teimlo'n sâl a bod gennych **symptomau** o'r Coronafeirws, dylech chi hunanynysu ar unwaith (dylai aelodau eraill eich aelwyd wneud hynny hefyd), dilyn canllawiau **hunanynysu** Llywodraeth Cymru, a gwneud cais am **brawf coronafeirws**.

Dylai'r rheini sydd wedi cael canlyniad positif am y coronafeirws neu sydd wedi cael gwybod gan swyddog olrhain cysylltiadau eu bod wedi cael cyswllt agos â rhywun sydd wedi cael canlyniad positif am y coronafeirws, hunanynysu ar

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://llyw.cymru/ymarfer-perfformio-chymryd-rhan-yn-y-celfyddydau-perfformio-canllawiau-ar-gyfer-dychwelyd-yn-raddol** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

unwaith yn unol â gofynion y rheoliadau.

3.0 Rheoli'r rheini sy'n ymwneud â'r celfyddydau perfformio

Mae'r adran hon yn ystyried y broses o reoli a threfnu gweithwyr neu gyfranogwyr a'u gweithgareddau, yn cynnwys y rheini sy'n gweithredu ar sail symudol, beripatetig. Wrth ystyried y cyngor hwn, mae rhwymedigaethau cyfreithiol cyfredol fel y rheini sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch, cyflogaeth neu gydraddoldeb (a dyletswyddau tuag at bobl sy'n agored i niwed yn benodol) yn dal yn berthnasol.

Efallai y bydd gan rai cyfyngiadau oblygiadau ymarferol i'r ffordd y caiff y gwahanol fathau o weithgareddau eu trefnu, eu cyflwyno a'u mwynhau. Fodd bynnag, dim ond os bydd gweithgareddau yn cydymffurfio â'r cyngor a'r rheoliadau cyfredol y dylid eu cynnal, dylid nodi efallai na fydd hi'n ddiogel bwrw ymlaen â rhai gweithgareddau hyd yn oed gyda mesurau lliniaru ar waith. Mae'r rhan fwyaf o'r canllawiau hyn yn dibynnu ar ddull synnwyr cyffredin tuag at risg a pharodrwydd i ddilyn canllawiau yn gywir ac yn ddiwyd.

Mae risgiau amlwg yn gysylltiedig â dwyn perfformwyr a chynulleidfaoedd ynghyd, yn enwedig gan ei bod yn anodd iawn gwybod pwy allai fod yn sâl ac yn peri risg i bobl eraill. Os byddwch yn rheoli lleoliad, gall profion tymheredd gan ddefnyddio thermomedr talcen digyffwrdd fod yn arwydd gweladwy i ymwelwyr a staff bod nifer o ddulliau gweithredol yn cael eu cymryd er mwyn sefydlu amgylchedd diogel o ran COVID. Ni ddylai unrhyw berfformiwr, aelod o staff neu aelod o'r gynulleidfa ddod i'r lleoliad os oes ganddo symptomau **COVID-19, neu os yw wedi cael ei hysbysu drwy'r system Tracio, Olrhain, Diogelu ei fod yn gysylltiad neu os yw newydd ddod yn ôl o wlad lle mae cwarantîn yn ofynnol.** Dylai'r rheini sydd wedi cael canlyniad positif am y coronafeirws neu sydd wedi cael gwybod gan swyddog olrhain cysylltiadau eu bod wedi cael cyswllt agos â rhywun sydd wedi cael canlyniad positif am y coronafeirws, hunanynysu ar unwaith yn unol â gofynion y rheoliadau.

Wrth ymateb i'r canllawiau a'r cyngor yn yr adran hon, dylech wneud y canlynol:

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://llyw.cymru/ymarfer-perfformio-chymryd-rhan-yn-y-celfyddydau-perfformio-canllawiau-ar-gyfer-dychwelyd-yn-raddol** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

- sicrhau eich bod yn deall rheoliadau a chanllawiau Llywodraeth Cymru ar COVID-19
- llunio cynllun sy'n egluro'r dull gweithredu rydych yn bwriadu ei gymryd wrth ichi ailddechrau cynnal gweithgareddau
- profi ymarferoldeb y cynlluniau hyn drwy gynnal proses asesu risg drylwyr
- ymweld â gwefannau cymdeithasau masnach a thechnegol arbenigol ac undebau
- rhannu eich cynlluniau a'ch bwriadau â'r rheini y byddwch yn cydweithio ac yn cysylltu â nhw, neu'n rhannu cyfleusterau â nhw
- meithrin dealltwriaeth glir o'r hyn y mae gofynion cadw pellter **cymdeithasol** a **chorfforol** yn ei olygu ar gyfer y gweithgareddau rydych yn eu cynllunio
- sicrhau bod yr holl hyfforddiant angenrheidiol yn cael ei ddarparu i'r rheini a fydd yn arwain a/neu'n cydlynu gweithgareddau
- penodi rhywun ar lefel ddigon uchel yn eich sefydliad i gymryd cyfrifoldeb penodol dros sicrhau bod yr holl gamau gweithredu diogelwch angenrheidiol yn cael eu cymryd mewn perthynas â COVID. Dylai'r holl weithwyr eraill gyfeirio at y person hwnnw fel y "swyddog COVID".

3.1 Gweithio'n ddiogel: y pethau sylfaenol

Ailddechrau cynnal gweithgareddau

- Dim ond os byddwch yn teimlo'n gwbl iach heb unrhyw **symptomau** o salwch y dylech ddychwelyd i'r gwaith
- Dylid cynnal profion tymheredd gan ddefnyddio thermomedr talcen digyffwrdd bob tro y bydd unigolyn yn cyrraedd ei weithle neu leoliad ymarfer (ac yn dychwelyd iddo)

Cadw pellter cymdeithasol (corfforol)

- Rhaid ichi gymryd pob mesur rhesymol i sicrhau bod **pellter** cymdeithasol (2 fetr) yn cael ei gynnal – cynlluniwch eich rhaglen o weithgareddau gan feddwl am y canllawiau cyfredol
- Os bydd eich gweithgaredd yn galw am gyswllt corfforol agos (er enghraifft

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://llyw.cymru/ymarfer-perfformio-chymryd-rhan-yn-y-celfyddydau-perfformio-canllawiau-ar-gyfer-dychwelyd-yn-raddol** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

dawns), dylech sicrhau bod **mesurau lliniaru** ar waith fel cyfarpar diogelu personol. Os nad oes modd defnyddio cyfarpar diogelu personol neu fesurau eraill, dylid addasu'r perfformiad i osgoi cyswllt agos gyda gweithwyr a chyfranogwyr a fydd wedi cael eu rhannu yn **grwpiau gwaith** neu'n dimau sefydlog
- Defnyddiwch y grisiau, pan fo hynny'n ymarferol, gan osgoi defnyddio'r lifftiau. Os bydd yn rhaid ichi ddefnyddio lifft, cytunwch ar y nifer mwyaf ddylai ei ddefnyddio, ac eglurwch hyn gan ddefnyddio arwyddion priodol.
- Rhowch system unffordd ar waith er mwyn cadw pellter cymdeithasol wrth symud o amgylch yr adeilad neu'r man ymarfer.
- Dylech sicrhau bod arwyddion a marciau llawr clir yn cael eu gosod mewn ardaloedd lle cheir llawer o bobl.
- Dylech sicrhau y darperir yn briodol ar gyfer anghenion pobl anabl.
- Meddyliwch a fydd angen cau rhai rhannau o'r safle neu a fydd rhai gweithgareddau nad oes modd eu cynnal mwyach os nad yw'r mesurau lliniaru'n ddigonol.

Gweithdrefnau glanhau a hylendid

- Sicrhau bod arwynebau caled sy'n cael eu cyffwrdd yn rheolaidd, (er enghraifft canllawiau a dolenni drysau) yn cael eu **glanhau** yn amlach.
- Meddyliwch am ddefnyddio peiriant creu anwedd gwrthfacterol mewn ardaloedd gwaith, gan ystyried pob agwedd iechyd a diogelwch.
- Mae angen ichi fod yn barod gyda'r cyflenwadau cyfarpar diogelu personol priodol a'r staff ar gyfer glanhau ardaloedd cyffredin sawl gwaith y dydd.
- Dylid sicrhau bod digon o gyflenwadau glanhau a hylif diheintio dwylo ar gael i gynnal amgylchedd gwaith diogel gan lanhau sawl gwaith y dydd.

Atal haint mewn stiwdios ac ystafelloedd ymarfer

- Rhaid diheintio pob eitem o gyfarpar therapi corfforol rhwng pob defnydd. Ni ddylai Perfformwyr ymgynnull mewn mannau therapi corfforol a champfeydd.
- Dylid neilltuo digon o amser i lanhau ardaloedd defnydd aml yn drylwyr.
- Mae angen rhoi sylw penodol i ardaloedd sy'n cael eu cyffwrdd yn rheolaidd fel botymau lifftiau, dolenni drysau, barau ballet, peiriannau llungopïo a ffacs,

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://llyw.cymru/ymarfer-perfformio-chymryd-rhan-yn-y-celfyddydau-perfformio-canllawiau-ar-gyfer-dychwelyd-yn-raddol** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

canllawiau grisiau ac ardaloedd ystafelloedd ymolchi/ystafelloedd newid.

Golchi dwylo a hylendid anadlol

Mae egwyddorion cyffredin y gallwch eu dilyn i atal feirysau anadlol fel COVID-19 rhag cael eu lledaenu, gan gynnwys:

- golchi eich dwylo'n amlach – gyda sebon a dŵr am o leiaf 20 eiliad, neu ddefnyddio hylif diheintio dwylo pan fyddwch yn cyrraedd gartref neu'r gwaith, pan fyddwch yn chwythu eich trwyn, tisian neu besychu, bwyta neu gyffwrdd â bwyd
- osgoi cyffwrdd â'ch llygaid, eich trwyn a'ch ceg cyn golchi eich dwylo
- osgoi dod i gysylltiad agos â phobl a chanddynt symptomau
- gorchuddio eich trwyn a'ch ceg â hances papur pan fyddwch yn pesychu neu disian ac wedyn taflu'r hances bapur yn y bin a golchi eich dwylo
- glanhau a diheintio eitemau ac arwynebau yn eich cartref sy'n cael eu cyffwrdd yn aml

Dylech sicrhau:

- Bod tywelion dwylo untro a sychwyr aer ar gael mewn ystafelloedd ymolchi.
- Dylid gosod gorsafoedd diheintio dwylo mewn mannau strategol yn yr adeilad, yn cynnwys mynedfeydd i'r adeilad ac i ardal y Llwyfan.
- Rhaid sicrhau bod cyfleusterau hylendid ar gael i bobl anabl.

3.2 Awyru

Mae'r ddealltwriaeth wyddonol ynghylch y ffordd y caiff COVID-19 ei drosglwyddo yn datblygu ac yn gwella bob dydd. Mae'n hysbys y gall COVID-19 gael ei ledaenu mewn defnynnau a gynhyrchir drwy siarad, pesychu a mathau eraill o leisio. Mae rhai o'r defnynnau hyn yn gymharol fawr ac yn syrthio i'r llawr hyd at 1-2 metr i ffwrdd. Fodd bynnag, mae rhai yn llai o lawer. Mae'r gronynnau aerosol yn aros yn yr aer nes iddynt gael eu chwythu i ffwrdd. Felly, mae system awyru dda yn hanfodol mewn unrhyw amgylchedd lle mae pobl yn ymgynnull.

Gall system awyru dda helpu i leihau'r risg o ledaenu'r Coronafeirws, felly bydd

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://llyw.cymru/ymarfer-perfformio-chymryd-rhan-yn-y-celfyddydau-perfformio-canllawiau-ar-gyfer-dychwelyd-yn-raddol** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

yn bwysig canolbwyntio ar wella systemau awyru cyffredinol, drwy awyr iach neu systemau mecanyddol o ddewis.

Lle y bo'n bosibl, gallwch ystyried ffyrdd o gynnal a chynyddu'r cyflenwad o awyr iach, er enghraifft, drwy agor ffenestri a drysau (heblaw am ddrysau tân).

Yn unol â chyngor yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, mae'r risg bod systemau aerdymheru yn lledaenu COVID-19 yn y gweithle yn eithriadol o isel ar yr amod bod digon o gyflenwad o awyr iach ac awyru.

Mae **cyngor ar ailfeddiannu adeiladau yn ddiogel** ar gael gan y Sefydliad Peirianwyr Gwasanaethau Adeiladu Siartredig (CIBSE).

3.3 Cyfarpar diogelu

Cyfarpar diogelu personol (PPE)

Mae hwn wedi cael ei ddylunio i helpu i ddiogelu rhywun rhag risgiau iechyd a diogelwch ac i atal haint rhag cael ei ledaenu o un person i'r llall. Mae'n cynnwys amrywiaeth eang o eitemau, gan gynnwys helmedau diogelwch, menig, cyfarpar diogelu'r llygaid, dillad llachar, esgidiau diogelwch a harneisiau diogelwch. Mae hefyd yn cynnwys cyfarpar diogelu anadlol. Fodd bynnag, cyfarparu diogelu personol yw'r opsiwn olaf ar ôl i'r holl fesurau eraill i reoli risg wedi cael eu rhoi ar waith, yn hytrach na'r opsiwn cyntaf a'r unig fesur.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau ar y **Coronafeirws a Chyfarpar Diogelu Personol**. Dylid dilyn y canllawiau hyn a chânt eu diweddaru'n rheolaidd.

Gorchuddion wyneb

Rhaid gwisgo gorchudd wyneb mewn safleoedd dan do sydd ar agor i'r cyhoedd yng Nghymru. Fodd bynnag, mae plant dan 11 oed wedi'u heithrio, ac nid oes yn rhaid i neb wisgo gorchudd wyneb pan fyddant yn eistedd i fwyta neu i yfed yn y safle. (Pan fydd dim ond rhan o safle ar gael i fwyta/yfed, bydd yn rhaid gwisgo

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://llyw.cymru/ymarfer-perfformio-chymryd-rhan-yn-y-celfyddydau-perfformio-canllawiau-ar-gyfer-dychwelyd-yn-raddol** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

gorchudd wyneb ym mhob rhan arall o'r safle.)

Mae'r Rheoliadau hefyd yn datgan nad oes yn rhaid gwisgo gorchudd wyneb os oes gan rywun esgus rhesymol (maent yn cynnwys enghreifftiau). **Darllen manylion yr esgusodion rhesymol.** Mae'r union leoliadau lle mae'r rheoliadau gorchuddion wyneb yn berthnasol yn ardaloedd dan do unrhyw "safleoedd sydd yn neu'n gallu cynnig mynediad i'r cyhoedd, boed hynny am dâl neu fel arall". Bydd hyn yn cynnwys nifer o wahanol fathau o safleoedd, ond ni rhoddir rhestr bendant ac nid oes unrhyw eithriadau.

Ar ben hynny, mewn safleoedd nad ydynt ar agor i'r cyhoedd ond lle nad oes modd cadw pellter cymdeithasol, mae Llywodraeth Cymru yn credu y dylai cyflogwyr ac eraill sy'n gyfrifol am safleoedd yng Nghymru yn gyffredinol, fel mesur rhesymol, hefyd fynnu bod staff ac ymwelwyr i'w safle yn gwisgo gorchudd wyneb mewn ardaloedd dan do pan nad oes modd cadw pellter cymdeithasol.

Mae'r gyfraith yn mynnu bod staff sy'n gweithio mewn ardaloedd o safleoedd dan do sydd ar agor i'r cyhoedd hefyd yn gwisgo gorchudd wyneb pan fyddant yn yr ardaloedd hynny. Dyma grynodeb byr iawn ac mae'r canllawiau llawn sydd wedi cael eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru ar gael yma **Gorchuddion Wyneb: canllawiau ar y mesurau i'w cymryd gan gyflogwyr a rheolwyr mangreoedd**, rhaid i gyflogwyr ystyried y canllawiau hyn.

3.4 Castio a chlyweliadau

Bydd angen gwneud ymdrech ymwybodol i sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd i leihau lefelau trosglwyddo ac i gadw pellter corfforol wrth gastio a chynnal clyweliadau.

Gallai hyn yn golygu y bydd angen cymryd y camau canlynol:

- Recordio clyweliadau neu eu cynnal ar-lein er mwyn lleihau'r niferoedd ar y safle. Gall ffrwd fyw helpu i leihau nifer yr aelodau o dîm creadigol fydd yn bresennol mewn sesiynau castio a chlyweliadau.
- Bod yn ymwybodol y gall recordio clyweliadau neu eu cynnal ar-lein yn unig

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://llyw.cymru/ymarfer-perfformio-chymryd-rhan-yn-y-celfyddydau-perfformio-canllawiau-ar-gyfer-dychwelyd-yn-raddol** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

fod yn rhwystr i'r rheini nad ydynt yn berchen ar y cyfarpar, nad ydynt yn gwybod sut i'w ddefnyddio, neu nad oes ganddynt becyn band eang digonol. Gall fod angen cymryd ymagwedd gyfunol at y rhan hon o'r broses er mwyn sicrhau na fydd problemau mynediad yn creu rhwystr.

- Cau ystafelloedd aros lle na ellir cadw **pellter** cymdeithasol, gofyn i bobl beidio â chyrraedd cyn eu slot amser penodol, a rhoi cyfarwyddiadau clir i beidio ag ymgynnull mewn ardaloedd eraill os byddant yn aros.
- Paratoi ar gyfer absenoldeb posibl perfformwyr oherwydd salwch, er enghraifft drwy gynyddu nifer y dirprwyon. Lle y bo'n bosibl, ni ddylai'r dirprwyon hyn fod yn aelodau o'r cast eisoes er mwyn lleihau nifer y pwyntiau cyswllt.
- Gwneud addasiadau rhesymol i ddiwallu anghenion gweithwyr anabl
- Defnyddio sgriniau er mwyn creu rhwystr ffisegol rhwng pobl, er enghraifft rhwng y tîm castio neu'r cyfeilydd a'r ymgeiswyr.
- Ystyried sut i ddiogelu unrhyw dîm creadigol ategol fel cyfeilyddion cerddorol yn briodol, er enghraifft drwy ddefnyddio sgriniau neu sicrhau y gellir cadw pellter cymdeithasol.
- Lleihau maint y cast lle y bo'n bosibl er mwyn lleihau nifer y pwyntiau cyswllt, er enghraifft drwy leihau nifer y cast ychwanegol nad ydynt yn hanfodol, gan drefnu bod chwaraewyr yn cymryd sawl rhan.

3.5 Canllawiau cyffredinol yn ystod ymarferion, sesiynau hyfforddiant, sesiynau cyn-gynhyrchu a pherfformiadau

Mae angen i drefnwyr ystyried canllaw gweithgareddau eraill megis **lletygarwch** neu **addoli**, all olygu cyfyngu ar rai gweithgareddau neu osod fesurau ychwanegol, er enghraifft i leihau lefelau swn.

Gellir ystyried strategaethau gwahanol er mwyn cadw pellter corfforol o 2m rhwng unigolion mewn sesiynau hyfforddiant, ymarferion, sesiynau cyn-gynhyrchu a pherfformiadau. Dylid nodi efallai y bydd angen cau rhai rhannau o'r safle neu ni fydd modd cynnal rhai gweithgareddau mwyach os nad yw'r mesurau lliniaru'n ddigonol.

Nid oes un ateb 'cywir', ond bydd angen i'ch asesiad o'r hyn sydd ei angen gwmpasu'r canlynol o leiaf:

> **Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
> Ewch i **https://llyw.cymru/ymarfer-perfformio-chymryd-rhan-yn-y-celfyddydau-perfformio-canllawiau-ar-gyfer-dychwelyd-yn-raddol** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
> Gwybdaeth am **hawlfraint**.

- Rhoi nodiadau atgoffa gweledol o bwysigrwydd golchi dwylo yn rheolaidd, gan osod gorsafoedd diheintio dwylo ym mhob rhan o'r adeilad. Mae arwyddion sylfaenol ar gael ar **wefan** Llywodraeth Cymru.
- Rhoi gofod i berfformwyr a phobl eraill sy'n bresennol gadw pellter corfforol rhwng ei gilydd ac unrhyw gynulleidfa, aelodau o'r tîm cynhyrchu ac unigolion eraill. Lle y bo'n bosibl, dylid mynd i'r afael â hyn mewn sesiynau hyfforddiant, ymarferion, sesiynau cyn-gynhyrchu, perfformiadau, ac unrhyw fath arall o weithgaredd celfyddydau perfformio. Mae canllawiau ar roi mesurau rhesymol ar waith i atal y feirws rhag lledaenu ar gael ar **wefan** Llywodraeth Cymru.
- Gallai gweithio yn yr awyr agored gynnig dull amgen weithiau. Lle nad yw hyn yn bosibl, dylech sicrhau bod systemau awyru digonol yn yr holl ardaloedd ymarfer, hyfforddiant a pherfformiad (gan roi sylw penodol i ardaloedd dan do ac ardaloedd dan orchudd). Gweler 3.2 uchod.
- Os bydd angen, dylech drefnu a newid repertoire, ymarferion, sesiynau hyfforddiant a pherfformiadau er mwyn osgoi sefyllfaoedd lle na all perfformwyr gadw pellter corfforol. Mewn rhai achosion, bydd hyn yn heriol. Gallai cymryd camau gweithredu arbennig arwain at gostau ychwanegol. Mae'r rhain yn ffactorau y bydd angen eu hystyried wrth benderfynu a yw'n hyfyw yn ariannol i ailddechrau cynnal rhai mathau o weithgareddau.
- Rhaid ichi hefyd gymryd pob mesur rhesymol i leihau unrhyw amser na all unigolion gadw **pellter** corfforol cymaint â phosibl (rydym yn cydnabod y gallai hyn effeithio ar y dewis o repertoire neu'r math o weithgaredd, yn enwedig lle mae cyswllt corfforol agos yn rhan hanfodol o'r ffurf ar gelfyddyd).
- Dylech leihau maint grwpiau a chast lle y bo'n bosibl er mwyn cadw pellter corfforol.
- Os na fydd yn bosibl cynnal perfformiadau byw, dylech ystyried defnyddio datrysiadau technegol er mwyn lleihau achosion o ryngweithio a sicrhau y gellir cadw at y rheolau cadw **pellter** cymdeithasol (er enghraifft at gyfer sesiynau castio, ymarferion, sesiynau hyfforddi a pherfformiadau).
- Dylech gau ardaloedd cyffredin nad ydynt yn hanfodol, fel ystafelloedd aros (neu eu haddasu at ddibenion gwahanol) oni bai eu bod yn cael eu cynnwys mewn amserlen **lanhau** reolaidd. Ardaloedd cyffredin cyfyngedig iawn fydd mewn rhai lleoliadau gwledig, gan orfodi pobl i ymgynnull mewn coridorau yn aml. Dylid rhoi systemau rheoli ar waith i atal pobl rhag ymgynnull mewn

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://llyw.cymru/ymarfer-perfformio-chymryd-rhan-yn-y-celfyddydau-perfformio-canllawiau-ar-gyfer-dychwelyd-yn-raddol** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

mannau cyfyngedig.
- Dylech ddefnyddio tâp neu baent ar y llawr er mwyn helpu pobl i ddilyn rheoliadau cadw pellter cymdeithasol a symud o amgylch yn ddiogel lle y bo'n bosibl.

3.6 Ymarferion a pherfformiadau

Bydd lleihau'r trosglwyddiad yn dibynnu ar nifer o ffactorau, gan gynnwys yr angen i gadw **pellter** corfforol ym mhob sefyllfa, gan gynnwys yn ystod ymarferion a hyfforddiant. Bydd angen adolygu'r camau canlynol fel rhan o'ch asesiad risg ac wrth wneud penderfyniadau:

- Lleihau maint y cast, y gerddorfa a grwpiau perfformio eraill lle bynnag y bo'n bosibl er mwyn sicrhau y gellir cadw pellter corfforol.
- Cadw pellter cymdeithasol lle bynnag y bo'n bosibl mewn ymarferion a pherfformiadau. Os bydd cyswllt agos yn hollol hanfodol, dylid lleihau hyn a defnyddio timau sefydlog lle y bo'n bosibl. Lle na ellir defnyddio cyfarpar diogelu personol, dylai'r perfformiad gael ei addasu i osgoi cyswllt neu waith agos rhwng y gwahanol glystyrau
- Mapio cynyrchiadau cyn dechrau ymarferion wyneb yn wyneb a rhoi manylion penodol ynghylch amserlenni ymarferion.
- Dysgu llinellau neu rannau ymlaen llaw er mwyn osgoi cario sgriptiau wrth ymarfer.
- Arddangos sgriptiau ar sgriniau mewn ystafelloedd ymarfer er mwyn lleihau'r angen am gyswllt ac er mwyn helpu hygyrchedd.
- Cynyddu'r defnydd o dechnoleg mewn ymarferion er enghraifft er mwyn cynnal sesiynau darllen sgriptiau, ac mewn perfformiadau, lle y bo'n ymarferol.
- Osgoi ymarfer a pherfformio wyneb yn wyneb lle bynnag y bo'n bosibl.
- Sicrhau mai dim ond pan fydd angen i berfformwyr fod yn bresennol ar gyfer eu rhan nhw y byddant yn bresennol mewn ymarferion a pherfformiadau.
- Newid yr amserlenni galw fel mai dim ond y rheini y mae angen iddynt fod ar y safle sydd yno.
- Rhoi manylion cylchdroi'r cast wrth gyrraedd a gadael y llwyfan gan geisio lleihau nifer y bobl sy'n gweithio yn yr un ardal ar yr un pryd.
- Defnyddio cysylltiadau radio, ffôn a fideo lle y bo'n bosibl er mwyn osgoi

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://llyw.cymru/ymarfer-perfformio-chymryd-rhan-yn-y-celfyddydau-perfformio-canllawiau-ar-gyfer-dychwelyd-yn-raddol** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

cyswllt wyneb yn wyneb.

Dylech ystyried gwneud pob addasiad rhesymol er mwyn sicrhau y gall gweithwyr byddar ac anabl cymryd rhan lawn.

3.7 Hyfforddiant

Er mwyn lleihau achosion o drosglwyddo, bydd angen cadw **pellter** corfforol wrth hyfforddi. Mae'r canllawiau hyn yn cynnwys ysgolion drama a dawns a sefydliadau hyfforddiant eraill yn y sector sy'n defnyddio arferion tebyg i'r rhai a nodir yn y canllawiau hyn:

Bydd hyn yn golygu y bydd angen cymryd y camau canlynol:

- Osgoi unrhyw ymarferion hyfforddi sy'n golygu na ellir dilyn y rheolau a'r canllawiau cadw pellter cymdeithaso
- Lle y bo'n hanfodol i berfformwyr sy'n hyfforddi dorri canllawiau cadw pellter cymdeithasol, mae angen rhoi mesurau lliniaru ar waith megis cyfarpar diogelu personol, a sicrhau bod perfformwyr yn torri canllawiau cadw pellter cyn lleied â phosibl.
- Osgoi sefyllfaoedd wyneb yn wyneb lle y bo'n bosibl.
- Rhannu dosbarthiadau a sesiynau hyfforddi yn grwpiau bach.

3.8 Patrymau sifft a grwpiau gweithio

Dan amgylchiadau penodol, efallai y byddwch yn gweld bod angen ichi newid y ffordd rydych yn trefnu ac yn amserlennu gwaith. Gallai'r rhesymau dros hyn gynnwys yr angen i greu grwpiau neu dimau ar wahân a lleihau nifer y bobl y bydd pob gweithiwr neu gyfranogwr yn dod i gysylltiad â nhw.

Bydd angen adolygu'r camau canlynol fel rhan o'ch asesiad risg ac wrth wneud penderfyniadau:

- Rhaid ichi gymryd pob mesur rhesymol, lle caiff gweithwyr neu gyfranogwyr eu rhannu'n dimau neu'n grwpiau sifft, i gadw'r timau neu'r grwpiau sifft hyn yr un peth bob tro fel bod unrhyw gyswllt na ellir ei osgoi yn digwydd rhwng

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://llyw.cymru/ymarfer-perfformio-chymryd-rhan-yn-y-celfyddydau-perfformio-canllawiau-ar-gyfer-dychwelyd-yn-raddol** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

yr un bobl.
- Rhaid ichi gymryd pob mesur rhesymol i sicrhau bod aelodau o dimau sefydlog yn cadw **pellter** cymdeithasol rhwng ei gilydd cymaint ag y bo modd, a rhwng timau sefydlog.
- Nodi ardaloedd lle y bydd yn rhaid i bobl basio pethau'n uniongyrchol i'w gilydd a dod o hyd i ffyrdd o ddileu cysylltiad uniongyrchol, er enghraifft defnyddio pwyntiau gollwng neu barthau trosglwyddo.
- Creu parthau mewn lleoliad neu safle i wahanu grwpiau, er enghraifft rhwng gweithwyr blaen y tŷ (fel gweithredwyr sain) ac aelodau eraill o'r tîm cynhyrchu a pherfformwyr.
- Os bydd unigolyn yn gweithredu ar sail beripatetig, fel athro, cerddor llawrydd neu goreograffydd, ac yn gweithio gyda sawl grŵp neu unigolyn:
  - Ni ddylai weithio os oes ganddo **symptomau**, ond dylai **hunanynysu** a gwneud cais i gael **prawf**;
  - Dylid dilyn y gofyniad i gadw pellter corfforol rhwng pobl grŵp;
  - Dylid osgoi sefyllfaoedd lle caiff y gofyniad i gadw pellter corfforol ei dorri, er enghraifft, athro yn cywiro ystum disgybl neu'n dangos gwaith partner wrth ddawnsio;
  - Dylid ymdrechu i leihau nifer y grwpiau y bydd yn rhyngweithio â nhw a'r lleoliadau y bydd yn gweithio ynddynt, er mwyn lleihau nifer y bobl y daw i gysylltiad â nhw;

3.9 Ystafelloedd newid a chawodydd

Mae ystafelloedd newid a chawodydd yn ardal lle ceir risg uwch o drosglwyddo a dylid peidio â'u defnyddio os yw hynny'n bosibl. Er mwyn lleihau'r risg o drosglwyddo mewn ystafelloedd newid a chawodydd, dylid adolygu'r camau canlynol fel rhan o'ch asesiad risg ac wrth wneud penderfyniadau:

- Lle mae cawodydd a chyfleusterau newid yn hanfodol, llunio canllawiau defnyddio a glanhau clir ar gyfer cawodydd, loceri ac ystafelloedd newid er mwyn sicrhau y cânt eu cadw'n lân ac na chaiff eitemau personol eu cadw ynddynt ac y gellir cadw **pellter** cymdeithasol cymaint â phosibl.
- Cyflwyno mesurau **glanhau** gwell ar gyfer yr holl gyfleusterau yn ystod y dydd ac ar ddiwedd y dydd.
- Lle y caiff cawodydd eu rhannu, ystyried eu glanhau'n amlach.

> **Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
> Ewch i **https://llyw.cymru/ymarfer-perfformio-chymryd-rhan-yn-y-celfyddydau-perfformio-canllawiau-ar-gyfer-dychwelyd-yn-raddol** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
> Gwybdaeth am **hawlfraint**.

- Er mwyn rhoi mwy o dawelwch meddwl, darparu deunydd glanhau a hylif diheintio dwylo i'w defnyddio mewn mannau sy'n cael eu cyffwrdd yn rheolaidd. (Dylid rhoi sylw arbennig i anghenion pobl anabl)
- Gosod arwyddion ychwanegol yn yr ardaloedd hyn er mwyn cadw pellter cymdeithasol.
- Ystyried newid polisïau er mwyn cyfyngu ar yr amser a dreulir mewn ardaloedd newid, yn enwedig rhwng gweithgareddau grŵp er mwyn cadw pellter cymdeithasol.
- Gellir parhau i ganiatáu pobl i ddefnyddio loceri os byddant yn cadw pellter cymdeithasol.

3.10 Dylunio ac adeiladu setiau

Mae'n amhosibl rhagweld yr amrywiaeth lawn o leoliadau lle mae gwaith dylunio ac adeiladu setiau yn debygol o ddigwydd. Mae'r ABTT yn gweithio'n agos gyda'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ac mae'n cyhoeddi canllawiau ar arferion gwaith yn y diwydiant digwyddiadau byw.

ABTT Cymru yw'r gangen yng Nghymru ac mae pobl yn y sector wedi cyfrannu at y **gwaith o ddatblygu'r dogfennau hyn**.

Hefyd, dylid adolygu'r camau canlynol fel rhan o'ch asesiad risg ac wrth wneud penderfyniadau:

- Cadw pellter cymdeithasol neu, lle na fydd hynny'n bosibl, lleihau achosion o weithio'n agos yn ystod camau gosod a chludo drwy roi **mesurau** priodol ar waith, dylech chi ystyried:
  - defnyddio cerbydau ychwanegol i gludo cyfarpar ac eitemau mawr
  - cynyddu'r defnydd o gyfarpar mecanyddol fel cerbydau fforch godi i leihau nifer y bobl sydd eu hangen i godi casys a golygfeydd.
- Neilltuo digon o amser a gofod gwaith i sicrhau y gellir gwneud unrhyw waith paratoi oddi ar y set yn ddiogel.
- Buddsoddi amser ychwanegol i'r broses dylunio blwch model a cherdyn gwyn.
- Adeiladu cymaint â phosibl ymlaen llaw oddi ar y safle, fel mai dim ond gosod a phaentio y bydd angen ei wneud ar y safle.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://llyw.cymru/ymarfer-perfformio-chymryd-rhan-yn-y-celfyddydau-perfformio-canllawiau-ar-gyfer-dychwelyd-yn-raddol** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

3.11 Sain a goleuadau

Er mwyn lleihau achosion o drosglwyddo ac i gadw pellter cymdeithasol lle y bo'n bosibl wrth reoli sain a goleuadau, ymysg yr enghreifftiau o'r camau y gellid eu cymryd mae:

- Defnyddio ystafelloedd rheoli sain a goleuadau lle maent ar gael, y tu ôl i wydr, a monitro drwy seinyddion (yn achos sain). Dylid cyfyngu mynediad at yr ystafell i'r rheini sydd angen ei defnyddio, a dylai unrhyw bobl sydd yn yr ystafell reoli gadw pellter cymdeithasol o ddau fetr, yn unol â maint yr ystafell.
- Creu sgrin (ee sgrin rwyllog sy'n dryloyw o ran acwsteg) o amgylch desgiau sain a goleuadau er mwyn creu rhwystr rhwng y tîm sain a'r gynulleidfa neu aelodau eraill o'r criw.
- Os bydd y ddesg sain wedi'i lleoli yn agos at seddi'r gynulleidfa, dylid ystyried gadael y rhesi agosaf o seddi yn wag.
- Glanhau desgiau yn rheolaidd, er enghraifft, desgiau sain, goleuadau, microffonau a phecynnau batri.
- Neilltuo mwy o amser i lanhau yn ystod 'Get-in' a 'Get-out'.

3.12 Rheoli llwyfan a chefn y llwyfan

Er mwyn lleihau achosion o drosglwyddo ac i gadw pellter cymdeithasol lle y bo'n bosibl wrth reoli'r llwyfan ac ardaloedd cefn y llwyfan, ymysg yr enghreifftiau o'r mesurau rhesymol y gellid eu cymryd mae:

- Cyfyngu ar nifer y gweithwyr a ganiateir i gefn y llwyfan ac ar y llwyfan, i'r gweithwyr hanfodol yn unig.
- Peidio â chaniatáu ymwelwyr i gefn y llwyfan nac at ddrws y llwyfan.
- Ystyried sut y gellid defnyddio'r esgyll (os oes rhai yn y lleoliad) i sicrhau cyn lleied â phosibl o ryngweithio rhwng pobl, er enghraifft systemau unffordd, esgyll penodol ar gyfer rheolwyr llwyfan a gwisgwyr.
- Ad-drefnu cefn y llwyfan i gyflwyno systemau unffordd a threfnu bod timau sefydlog yn defnyddio ystafelloedd gwyrdd ac ystafelloedd criw.
- Cyfyngu cymaint â phosibl ar nifer y bobl sy'n trin propiau a'u glanhau ar ôl

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://llyw.cymru/ymarfer-perfformio-chymryd-rhan-yn-y-celfyddydau-perfformio-canllawiau-ar-gyfer-dychwelyd-yn-raddol** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

pob perfformiad.
- Cyfyngu ar y bobl sy'n trin propiau allweddol i aelod penodol o'r criw a'r cast perthnasol.
- Rhoi marciau ar y llwyfan er mwyn i grwpiau cerddorol gadw atynt er mwyn cadw pellter cymdeithasol.
- Marcio llwybr clir ar y llwyfan ar gyfer unawdwyr ac arweinyddion sy'n cyrraedd ar gyfer perfformiad.
- Cyfyngu ardal llwyfannu'r perfformiad i'r ardal perfformio neu'r llwyfan yn unig a sicrhau nad oes cyfarwyddiadau i'r perfformwyr neu'r criw adael ardal y llwyfan a symud ymysg y gynulleidfa.
- Ystyried cyfrifoldebau dirprwyo, fel gofyn i'r Rheolwr Llwyfan Cynorthwyol fod yn gyfrifol am y llyfr, gan wahanu'r rhai sy'n gweithio ar flaen y tŷ a chefn y tŷ lle y bo'n bosibl.

3.13 Gwisgoedd a gwisg cyngherddau

Bydd angen cymryd gofal arbennig wrth reoli gwisgoedd a gwisg cyngherddau. Dylech fod yn ymwybodol o'r canlynol:

- Efallai y bydd angen ffitio gwisgoedd ar gyfer rhai cynyrchiadau lle mae cadw pellter cymdeithasol ac osgoi cyswllt wyneb yn wyneb agos yn anymarferol. Yn yr achosion hyn, dylech ystyried:
  - na ellir osgoi bod wyneb yn wyneb wrth ffitio gwisgoedd, dylid dilyn **canllawiau Llywodraeth Cymru ar weithio mewn lleoliadau cyswllt agos** lle y bo'n berthnasol;
  - Defnyddio ciwbiclau y tu ôl i sgrin er mwyn i'r cast dderbyn eu dillad a'u gwisgoedd heb gymorth pan fo'n bosibl. Pan fydd yn rhaid helpu (er enghraifft wrth newid yn gyflym yn yr esgyll), pan fo'n bosibl osgowch fod wyneb yn wyneb wrth wisgo.
  - defnyddio timau sefydlog fel yr amlinellir yn adran 3, a dim ond pan fo hynny'n hanfodol ac na ellir ei osgoi. Nid yw'n debygol y bydd y dull tîm sefydlog hwn yn bosibl mewn amgylcheddau amhroffesiynol neu pan fydd perfformwyr proffesiynol yn gweithio gyda mwy nag un grŵp neu sefydliad ar yr un pryd.
- Dylech leihau'r risg o groeshalogi lle y bo'n bosibl drwy:
  - diheintio ac awyru ciwbiclau newid rhwng pob defnydd;

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://llyw.cymru/ymarfer-perfformio-chymryd-rhan-yn-y-celfyddydau-perfformio-canllawiau-ar-gyfer-dychwelyd-yn-raddol** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

    - gwahanu gwisgoedd aelodau unigol o'r cast mewn bagiau plastig;
    - hongian dillad personol aelodau o'r cast mewn gorchudd plastig clir;
    - **golchi** gwisgoedd rhwng pob defnydd a'u rhoi mewn gorchudd plastig ar ôl iddynt gael eu glanhau;
    - peidio â rhannu unrhyw eitemau dillad.
- Osgoi rhannu cyfarpar, er enghraifft rhoi un peiriant gwnïo i bob defnyddiwr a'i lanhau ar ôl ei ddefnyddio.
- Dylech chi gymryd pob mesur rhesymol i gwblhau ffitio gwisgoedd yn ystod y sesiynau paratoi neu oddi ar y safle er mwyn osgoi cael pobl yn ymgynnull y tu ôl i'r llwyfan.
- Lleihau nifer yr achosion o orfod newid yn gyflym neu gynyddu'r amser rhwng achosion o newid.

Gofyn i gerddorion gyrraedd lleoliad perfformiad neu safle yn y dillad y byddant yn eu gwisgo ar gyfer y perfformiad.

3.14 Gwallt a cholur

Efallai y bydd angen trin gwallt a cholur ar gyfer rhai cynyrchiadau lle mae cadw pellter cymdeithasol ac osgoi cyswllt wyneb yn wyneb agos yn anymarferol. Dylid dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer **trinwyr gwallt** masnachol cyn belled ag y bo hynny'n berthnasol. Yn yr achosion hyn:

- gofynnwch i'r perfformwyr drin eu gwallt a'u colur eu hunain lle y bo'n briodol. Gofynnwch i'r cast a'r artistiaid cynorthwyol dynnu eu colur eu hunain lle y bo'n bosibl;
- Lle na fydd yn bosibl i rywun drin ei wallt neu ei golur ei hun, dylid dilyn canllawiau'r Llywodraeth ar weithio mewn **lleoliadau** cyswllt agos lle y bo'n berthnasol;
- Defnyddio timau sefydlog fel yr amlinellir yn adran 3. Nid yw'n debygol y bydd y dull tîm sefydlog hwn yn bosibl mewn amgylcheddau amhroffesiynol neu pan fydd perfformwyr proffesiynol yn gweithio gyda mwy nag un grŵp neu sefydliad ar yr un pryd.
- Gosod gorsafoedd gwallt a cholur mewn modd sy'n sicrhau y gellir cadw pellter cymdeithasol neu ddefnyddio sgriniau rhwng gorsafoedd.
- Cyfyngu ar yr amser a dreulir mewn cadair trin gwallt a cholur lle bynnag y

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://llyw.cymru/ymarfer-perfformio-chymryd-rhan-yn-y-celfyddydau-perfformio-canllawiau-ar-gyfer-dychwelyd-yn-raddol** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

bo'n bosibl.
- Neilltuo mwy o amser ar gyfer prosesau i gyfyngu ar y risg o groeshalogi, er enghraifft:
  - Dyrannu cit colur, brwshys, cynhyrchion a chyfarpar gwallt i bob aelod o'r cast, gan sicrhau eu bod yn cael eu sterileiddio bob dydd, ac mai dim ond arnyn nhw y cânt eu defnyddio.
  - Darparu pinnau, brwshys untro ar gyfer gwefusau a glud lle y bo'n bosibl.
- Dylid rheoli'r broses o ffitio microffonau radio dan ddilyn yr un amodau a chanllawiau ag ar gyfer Gwallt a Cholur yn gyffredinol
- Cynnal mesurau hylendid yn amlach ar gyfarpar ac arwynebau. Er enghraifft, defnyddio chwistrellyddion diheintio yn yr aer, cyfarpar diogelu personol, defnyddio cyn lleied o gyfarpar â phosibl, sterileiddio a diheintio cyfarpar ac **arwynebau** ar ôl pob defnydd, defnyddio brwshys a dodwyr untro.

3.15 Rheoli perfformiadau a ddarlledir heb gynulleidfa fyw

Mae Bectu, yr undeb llafur, wedi llunio canllawiau defnyddiol ar sut y gall **timau gydweithio ar gynyrchiadau ffilm a theledu**.

Cyhoeddodd Comisiwn Ffilm Prydain **ganllawiau ar Weithio'n Ddiogel yn ystod COVID-19 mewn Cynyrchiadau Ffilm a Drama Teledu o'r Radd Flaenaf**.

Mae rhagor o **ganllawiau darlledu, yn cynnwys canllawiau ar ffilmio mewn cohortau caeedig** wedi cael eu datblygu gan y diwydiant.

3.16 Rheoli blaen y tŷ a chefn y tŷ yn ystod perfformiad

Mae'n rhaid i bob gweithle a safle sy'n agored i'r cyhoedd gymryd pob **mesur** rhesymol i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r feirws. Mae'n ofyniad pwysig i gymryd pob mesur rhesymol i gadw cymaint â phosibl o **bellter** cymdeithasol rhwng timau blaen y tŷ a chefn y tŷ yn ystod perfformiadau byw, a rhwng perfformwyr, aelodau o'r criw ac aelodau o'r gynulleidfa cyn, yn ystod ac ar ôl perfformiadau.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://llyw.cymru/ymarfer-perfformio-chymryd-rhan-yn-y-celfyddydau-perfformio-canllawiau-ar-gyfer-dychwelyd-yn-raddol** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Dylech wneud y canlynol:

- Creu parthau blaen y tŷ a chefn y tŷ gyda phobl yn gweithredu'n benodol o fewn un o'r parthau, lle y bo'n bosibl.
- Sicrhau bod aelodau o'r timau sefydlog yn cymryd gofal penodol i gadw **pellter** cymdeithasol wrth ryngweithio ag aelodau o'r gynulleidfa ac aelodau eraill o staff blaen y tŷ a lleihau'r amser a dreulir yn gwneud hynny.
- Nodi unrhyw rolau sy'n gweithredu ar flaen y tŷ a chefn y tŷ fel arfer, a lleihau hynny lle y bo'n bosibl.
- Nodi unrhyw rolau sy'n rhyngweithio â'r gynulleidfa a rheoli'r risg o drosglwyddo.
- Lleihau'r rhyngweithio rhwng gweithwyr cefn y tŷ a'r gynulleidfa.
- Nodi lle y caiff Rheolwyr Llwyfan eu lleoli – maent yn gweithio ar flaen y tŷ yn ystod yr ymarferion technegol a byddent yng nghefn y tŷ yn draddodiadol yn ystod perfformiad. Byddai angen ystyried marcio mwy o ofodau ar gyfer cadw pellter diogel.

3.17 Teithio

Meddyliwch os oes gennych chi esgus rhesymol wrth deithio i ac allan o Gymru ac o'i chwmpas. Ceisiwch osgoi achosion diangen o deithio a chadwch bobl yn ddiogel pan fydd angen iddynt deithio rhwng lleoliadau. Gallwch chi wneud hyn drwy'r canlynol:

- Lleihau teithio nad yw'n hanfodol – ystyried dewisiadau o bell yn gyntaf.
- Lleihau nifer y bobl sy'n teithio gyda'i gilydd mewn un cerbyd, defnyddio partneriaid teithio sefydlog, cynyddu dulliau awyru lle y bo'n bosibl ac osgoi eistedd wyneb yn wyneb.
- Glanhau cerbydau a rennir rhwng sifftiau neu wrth newid dwylo.
- Lle y bo'n ofynnol i weithwyr aros oddi cartref, cofnodi'r arhosiad yn ganolog a sicrhau bod unrhyw lety dros nos yn bodloni canllawiau cadw pellter cymdeithasol.
- Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar weithio mewn neu o **gerbydau** ar gael ar gyfer gyrwyr a gweithwyr cludo nwyddau, yn ogystal â chanllawiau ar gyfer gweithredwyr ac **unigolion**.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://llyw.cymru/ymarfer-perfformio-chymryd-rhan-yn-y-celfyddydau-perfformio-canllawiau-ar-gyfer-dychwelyd-yn-raddol** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

3.18 Gweithgareddau teithiol

Mae graddau cysylltiadau posibl a'r mathau gwahanol ohonynt yn golygu bod gweithgareddau teithiol yn peri risg uchel iawn. Maes o law, pan fydd lleoliadau perfformio'n dechrau ailagor, bydd angen cynllunio'n ofalus i gydbwyso lefelau risg yn briodol rhwng y cwmni teithiol a'r hyrwyddwr (neu'r lleoliad) sy'n cyflwyno ei waith.

Mae hefyd yn golygu y bydd angen lefel uchel o drylwyredd i ddiogelu'r cast a'r criw pan fyddant ar daith.

- Mae gan yr hyrwyddwr a'r cynhyrchydd gyfrifoldeb cyfartal dros sicrhau amgylchedd COVID sy'n ddiogel. Rhaid iddynt wneud y canlynol o leiaf:
  - rhannu asesiad risg ag unrhyw gamau gweithredu ychwanegol y gallai fod eu hangen
  - cytuno ymlaen llaw ar ddyraniad unrhyw gostau ychwanegol oherwydd COVID-19
- Dylai'r cast a'r criw ymddwyn fel 'swigen' cadw pellter cymdeithasol, gan osgoi cyswllt y tu allan i'r grŵp uniongyrchol cymaint â phosibl, a chadw pellter cymdeithasol o fewn y grŵp
- Dylid **glanhau** cerbydau a chyfarpar teithio yn rheolaidd
- Dylai'r cast a'r criw gynnal profion tymheredd dyddiol gan ddefnyddio thermomedr talcen digyffwrdd
- Lle y bo'n ofynnol i'r cast a'r criw aros oddi cartref, dylid cofnodi'r arhosiad yn ganolog a sicrhau bod unrhyw lety dros nos yn bodloni canllawiau cadw pellter cymdeithasol
- Bydd goblygiadau i deithio ar draws ffiniau oherwydd mae'n bosibl y bydd mesurau gwahanol yn dal ar waith ar draws y DU. Rhaid i gwmnïau teithio sicrhau eu bod yn gyfarwydd â'r rheoliadau penodol sy'n gweithredu mewn unrhyw genedl neu ranbarth y byddant yn teithio iddi/iddo.
- Dylech fod yn sensitif i ddymuniadau'r rheini sy'n byw yn y cymunedau rydych yn bwriadu ymweld â nhw. Efallai na fyddant yn croesawu ymwelwyr hyd nes y gallant fod yn fwy pendant ei bod yn ddiogel i bobl deithio'n fwy eang o un lle i'r llall
- Dylech adolygu'r trefniadau contract i'r rheini sy'n rhan o daith. Er enghraifft, roedd **UK Theatre ac Equity wedi negodi trefniadau contract newydd**

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://llyw.cymru/ymarfer-perfformio-chymryd-rhan-yn-y-celfyddydau-perfformio-canllawiau-ar-gyfer-dychwelyd-yn-raddol** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

gan gynnwys:

- Cadw cyflogau ar gyfraddau 2019/20 hyd at fis Ebrill 2022.
- Cyflwyno cymalau sy'n galluogi rheolwyr i amrywio dyddiadau dechrau teithiau, yn cynnwys gohirio dyddiad dechrau taith heb fod yn hwy na 25% o gyfanswm hyd y contract.
- Neilltuo hyd at draean o gyfanswm nifer yr wythnosau yn 'wythnosau allan', sy'n golygu y gallai pedwar mis o gontract blwyddyn o hyd fod yn ddi-dâl os caiff hynny ei ddatgan o'r dechrau.
- Cyflwyno polisïau canslo newydd, yn cynnwys peidio â thalu pan fydd mwy na phedair wythnos o rybudd wedi'u rhoi ar gyfer canslo cyn y noson agoriadol.
- Cyflwyno cymalau penodol ynghylch force majeure, lle na fydd gan berfformwyr yr hawl i gael eu talu am berfformiadau yr effeithiwyd arnynt.
- Caniatáu i drydydd perfformiad gael ei ychwanegu i wythnos 8, 9 neu 10 sioe, ar yr amod y caiff darpariaethau egwyliau eu dilyn.

3.19 Canu a chwarae offerynnau chwyth a phres

Ystyrir bod canu a chwarae offerynnau chwyth a phres, yn enwedig mewn grwpiau, yn weithgaredd risg uchel. Mae hyn oherwydd y posibilrwydd o gynhyrchu aerosol a'r ffaith nad oes dadansoddiad gwyddonol awdurdodol ar hyn o bryd i asesu'r risg benodol hon.

Mae'r dystiolaeth yn cael ei datblygu'n gyflym. Felly, dyma'r fersiwn gychwynnol o'r canllawiau a argymhellir. Caiff canllawiau ychwanegol eu cyhoeddi pan fydd digon o dystiolaeth wyddonol i gefnogi llacio'r cyfyngiadau ymhellach.

Mae'r adran ganlynol yn nodi'r camau ychwanegol y gallwch eu cymryd i liniaru'r risg. Mae hyn yn briodol i'r cam cychwynnol o ddychwelyd i ganu a chwarae offerynnau chwyth a phres.

Dylech wneud y canlynol:

- rhaid i’r rheini sy’n perfformio mewn capasiti amhroffesiynol gydymffurfio â’r rheoliadau sy’n cyfyngu ar y nifer sy’n cael cwrdd mewn grŵp heb esgus rhesymol

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://llyw.cymru/ymarfer-perfformio-chymryd-rhan-yn-y-celfyddydau-perfformio-canllawiau-ar-gyfer-dychwelyd-yn-raddol** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

- cyfyngu ar y canu neu'r chwarae sy'n digwydd mewn grwpiau neu o flaen cynulleidfaoedd:
- cyfyngu ar y canu neu'r chwarae sy'n digwydd mewn grwpiau i grwpiau o **faint** sy'n cyd-fynd â'r cyngor cenedlaethol ar gadw pellter cymdeithasol mewn un lle ar wahân lle y bo'n bosibl ar gyfer y wlad lle cynhelir y perfformiad
- dim ond os bydd asesiad risg cynhwysfawr wedi'i gynnal y dylid ystyried cynyddu'r niferoedd mewn grwpiau. Gallai hyn gynnwys (ymhlith pethau eraill):
  - canlyniadau ymchwil wyddonol arall sy'n cael ei chynnal ar hyn o bryd;
  - maint y gofod;
  - y lefelau awyru naturiol yn y gofod;
  - lleoliad y cantorion yn y gofod;
  - effeithiolrwydd unrhyw fythod, rhwystrau neu sgriniau a ddefnyddir;
  - y defnydd o dimau sefydlog i leihau cysylltiadau;
- osgoi amlygu cynulleidfaoedd, criw a pherfformwyr yn ormodol drwy ddefnyddio rhaglenni amgen, technoleg neu ad-drefnu cerddorfaol ar gyfer llai o leisiau fel y flaenoriaeth gyntaf.
- **cadw pellter cymdeithasol** rhwng pob canwr, rhwng cantorion ac unrhyw bobl eraill fel arweinwyr, cerddorion eraill, cynulleidfaoedd neu gyfeilyddion. Dylai cantorion gael eu trin fel pe baent yn gweithio o fewn grŵp o berfformwyr a enwir sy'n rhannu'r llwyfan. Byddent yn cael eu trin fel cysylltiadau petai aelod o'r tîm yn teimlo'n sâl ac yn arddangos symptomau'r Coronafeirws – yn yr achos hynny dylen nhw (a'u haelwyd) **hunanynysu**, dylai'r rheini sydd wedi cael canlyniad positif am y coronafeirws neu sydd wedi cael gwybod gan swyddog olrhain cysylltiadau eu bod wedi cael cyswllt agos â rhywun sydd wedi cael canlyniad positif am y coronafeirws, hunanynysu ar unwaith yn unol â gofynion y rheoliadau.
- Annog gofal arbennig wrth lanhau poer neu gyddwysiad o offerynnau er mwyn atal defnynnau aerosol rhag ymledu
- gweithredu yn yr awyr agored, os yw'n bosibl gwneud hynny
- os bydd y canu neu'r chwarae yn digwydd dan do, cyfyngu'r niferoedd i ystyried ansawdd awyru'r gofod a'r gallu i ddilyn canllawiau estynedig ar gyfer cadw pellter corfforol.
- dylid gosod cantorion ac offerynwyr sy'n gweithio gydag unigolion eraill wrth ochr ei gilydd neu gefn wrth gefn ac osgoi canu wyneb yn wyneb hyd yn oed

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://llyw.cymru/ymarfer-perfformio-chymryd-rhan-yn-y-celfyddydau-perfformio-canllawiau-ar-gyfer-dychwelyd-yn-raddol** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

wrth gadw at y pellter gofynnol.

- os nad yw'n bosibl cadw at y canllawiau estynedig ar gyfer cadw pellter corfforol wrth ganu, dylid defnyddio un neu fwy o dimau sefydlog (sy'n cynnwys aelodaeth gyson) er mwyn rheoli'r risg o drosglwyddo ac ystyried:
- lle y bo'n bosibl, cyfyngu ar nifer y cantorion a'r perfformwyr mewn unrhyw dîm sefydlog i 6. Felly, gall hyd at 6 chanwr berthyn i dîm sefydlog mwy o faint sy'n cynnwys offerynwyr eraill;
- sicrhau bod timau sefydlog yn cadw pellter cymdeithasol oddi wrth y gynulleidfa
- pan fo cyfyngu maint timau sefydlog i 6 yn golygu na all gwaith proffesiynol ailddechrau (er enghraifft, cast theatr gerdd arferol), dim ond os bydd cynllun lliniaru risg cynhwysfawr wedi'i roi ar waith ac y gellir cadw pellter corfforol y dylid ystyried tîm sefydlog mwy.Gallai hyn gynnwys (ymhlith pethau eraill):
  - lleihau nifer y cantorion ac offerynwyr yn y tîm sefydlog cymaint â phosibl, (mae'n annhebygol y bydd y dull gweithredu tîm sefydlog hwn yn bosibl lle bydd perfformwyr proffesiynol yn gweithio gyda mwy nag un grŵp neu sefydliad ar yr un pryd);
  - cynnal ymarferion a sesiynau hyfforddi mewn timau sefydlog llai lle bynnag y bo modd;
  - cyfathrebu'n glir y nifer mwyaf o bobl, yn gyson â'r canllawiau cadw pellter corfforol, sy'n cael ymgysylltu fel tîm sefydlog ar unrhyw adeg;
  - sgrinio unrhyw un mewn tîm sefydlog cyn iddynt gael mynediad i leoliadau, a all gynnwys holiadur symptomau COVID-19, ymhlith pethau eraill;
    - penderfynu pa lefel o fonitro ar gyfer symptomau COVID-19 neu brofi ar gyfer COVID-19 sydd ei hangen i gyflawni lefel mor rhesymol â phosibl o liniaru risg;
    - sicrhau bod polisi clir ar waith ar gyfer rheoli unigolyn sy'n cael prawf positif ar gyfer COVID-19, a dilyn gofynion adrodd, rheoliadau a **chanllawiau** Llywodraeth Cymru ar **hunanynysu** a Phrofi, Olrhain, Diogelu;
    - penodi aelod presennol o staff neu aelod o'r sefydliad yn 'swyddog' COVID-19 a fydd yn gyfrifol am oruchwylio timau sefydlog, yn cynnwys yr asesiad risg a sicrhau bod y mesurau lliniaru priodol ar waith;
- o fewn y tîm sefydlog, gosod pobl wrth ochr ei gilydd neu gefn wrth gefn ac

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://llyw.cymru/ymarfer-perfformio-chymryd-rhan-yn-y-celfyddydau-perfformio-canllawiau-ar-gyfer-dychwelyd-yn-raddol** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

osgoi canu neu berfformio wyneb yn wyneb lle bynnag y bo'n bosibl;
- holl aelodau tîm sefydlog i **hunanynysu** os bydd gan un aelod symptomau COVID-19; ar ben hynny ar gyfer y rheini sydd wedi cael canlyniad positif am y coronafeirws neu sydd wedi cael gwybod gan swyddog olrhain cysylltiadau eu bod wedi cael cyswllt agos â rhywun sydd wedi cael canlyniad positif am y coronafeirws, dylid hunanynysu ar unwaith yn unol â gofynion y rheoliadau.
- ystyried lleihau nifer y cantorion neu'r offerynwyr mewn cast, côr neu ensemble os bydd angen er mwyn bodloni'r canllawiau hyn;
- ystyried defnyddio bythod, rhwystrau neu sgriniau os yw'n bosibl rhwng cantorion unigol nad ydynt yn rhan o dîm sefydlog, rhwng timau sefydlog o gantorion ac eraill, a rhwng perfformwyr ac unrhyw gynulleidfa, gan nodi'r canlynol:
  - dim ond rhai mathau o fythod, rhwystrau neu sgriniau fydd yn ddigon effeithiol i fod yn hyfyw i'w defnyddio mewn sefyllfaoedd lle na ellir cadw pellter cymdeithasol, a bydd rhai deunyddiau'n fwy addas ar gyfer gwneud rhwystr na'r lleill – ee yn gryfach, yn haws eu glanhau;
  - bydd angen cynnal asesiadau risg cynhwysfawr wrth ddefnyddio bythod, rhwystrau neu sgriniau er mwyn sicrhau bod y risg o drosglwyddo yn cael ei rheoli'n briodol a bod risgiau iechyd a diogelwch eraill fel amlygiad i sŵn yn cael eu rheoli, yn enwedig wrth ddefnyddio bythod, rhwystrau neu sgriniau lle na ellir dilyn canllawiau estynedig ar gyfer cadw pellter cymdeithasol.
- holwch bob perfformiwr i sicrhau nad oes unrhyw un sydd â **symptomau** COVID-19 neu sydd wedi cael ei gynghori i **hunanynysu** yn cymryd rhan.
- cwblhau asesiad risg penodol wrth berfformio mewn lleoliadau cymdeithasol fel bariau a bwytai.

3.20 Chwarae cerddoriaeth (heb gynnwys canu, offerynnau chwyth a phres)

Er mwyn lleihau'r risg o drosglwyddo wrth chwarae mewn grwpiau cerddorol (heb gynnwys canu, offerynnau chwyth a phres), dylech wneud y canlynol:

- cadw pellter corfforol o 2m bob amser wrth chwarae.
- Gan gydnabod na fydd hi bob tro'n bosibl cadw pellter corfforol o 2m, rhaid i

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://llyw.cymru/ymarfer-perfformio-chymryd-rhan-yn-y-celfyddydau-perfformio-canllawiau-ar-gyfer-dychwelyd-yn-raddol** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

dimau sefydlog gymryd pob mesur rhesymol i sicrhau eu bod yn cadw pellter cymdeithasol. Fodd bynnag, cydnabyddir na fydd hi bob tro'n bosibl gwneud hyn, os felly rhaid rhoi mesurau lliniaru eraill ar waith fel y nodir isod ac yn y canllawiau ar fesurau rhesymol, gallai mesur rhesymol gynnwys peidio â gwneud rhai gweithgareddau.
- gosod pobl gefn wrth gefn neu wrth ymyl ei gilydd (yn hytrach nag wyneb yn wyneb) lle bynnag y bo'n bosibl.
- chwarae yn yr awyr agored lle bynnag y bo'n bosibl.
- os bydd y chwarae yn digwydd dan do, cyfyngu'r niferoedd i ystyried ansawdd yr awyru yn y gofod a'r gallu i gadw pellter cymdeithasol, ynghyd â'r terfyn ar nifer y bobl a gaiff gwrdd o dan do.
- ystyried defnyddio sgriniau neu rwystrau yn ogystal â chadw pellter cymdeithasol, ac fel mesur lliniaru pan na fydd modd cadw pellter corfforol yn llawn yn gyson.

3.21 Pyllau cerddorfa ac ardaloedd band

Yn aml, mae pyllau cerddorfa ac ardaloedd band yn ofodau bach a chyfyng, gyda cherddorion weithiau'n gorfod eistedd mewn amgylcheddau lle gall fod yn anodd cadw pellter cymdeithasol. Mae angen rhoi sylw penodol i reoli risg yn yr ardaloedd hyn.

Ymysg y camau gweithredu y gallech eu cymryd mae:

- Ystyried lleihau nifer y cerddorion sy'n defnyddio pwll y gerddorfa neu ardal y band, er enghraifft drwy eu symud i leoliadau eraill o fewn y gofod perfformio er mwyn sicrhau y gallant gadw pellter cymdeithasol o 2m.
- Ystyried defnyddio unedau awyru symudol os bydd llif aer yn broblem
- Marcio pwll y gerddorfa neu ardal y band fel bod pob cerddor yn deall ble y dylai fod a'r canllawiau cadw pellter cymdeithasol (gan sicrhau'r pellter estynedig sy'n ofynnol ar gyfer canu a chwarae offerynnau chwyth a phres).
- Rhoi rhagofalon ychwanegol ar waith ar gyfer offerynnau chwyth a phres a chantorion fel y nodir yn y canllawiau hyn.
- Gosod cerddorion wrth ochr ei gilydd neu gefn wrth gefn lle y bo'n ymarferol ac osgoi eu gosod wyneb yn wyneb.
- Ystyried defnyddio sgriniau neu rwystrau, yn enwedig lle mae cerddorion yn

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://llyw.cymru/ymarfer-perfformio-chymryd-rhan-yn-y-celfyddydau-perfformio-canllawiau-ar-gyfer-dychwelyd-yn-raddol** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

wynebu ei gilydd, gan ystyried y gofynion iechyd a diogelwch o ran amlygiad i sŵn.
- Cadw'r pellter priodol rhwng chwaraewyr ym mhwll y gerddorfa neu ardal y band ac unrhyw un arall ar y llwyfan.
- Sefydlu timau sefydlog o gerddorion rheolaidd fel y caniateir gan y canllawiau hyn.

3.22 Addysgu cerddoriaeth

Os ydych yn diwtor preifat a'ch bod fel arfer yn cynnig darpariaeth yn eich cartref eich hun, cartref arall neu leoliad annomestig, mae nifer o bethau y mae angen ichi eu hystyried cyn ailddechrau eich gwaith.

Mae'n bwysig os ydych yn defnyddio lleoliad annomestig:

- Os ydych wedi eich lleoli mewn safle sydd wedi bod ar gau ers wythnosau eich bod wedi cadarnhau gyda'r perchennog bod yr holl archwiliadau cydymffurfiaeth iechyd a diogelwch wedi cael eu hadnewyddu.
- Os chi yw'r perchennog, cyn ailagor mae hi'n bwysig cynnal yr holl archwiliadau arferol er mwyn sicrhau bod yr adeilad yn ddiogel. Os oedd adeiladau wedi cael eu cau neu os oedd llai wedi bod yn eu defnyddio yn ystod COVID-19, mae dŵr yn gallu sefyll oherwydd diffyg defnydd, sy'n cynyddu'r perygl o glefyd y llengfilwyr. Mae canllawiau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ar reoli dŵr a chlefyd y llengfilwyr ar **gael**.
- Mae'n bosibl y byddai'n ddefnyddiol darllen canllawiau'r Arolygiaeth Dŵr Yfed ar ddefnyddio adeiladau unwaith eto ar ôl iddynt fod yn segur am gyfnod. Mae'r canllawiau'n rhoi sylw i nifer o faterion ansawdd y dylid eu hystyried. Mae'r canllawiau ar gael ar dudalen we gyffredinol yr Arolygiaeth Dŵr Yfed.
- Rhaid ichi gymryd pob mesur rhesymol i sicrhau bod awyru naturiol drwy ffenestri neu fentiau cymaint ag y bo modd. Os defnyddir system awyru fecanyddol ganolog, dylid addasu'r systemau ailgylchredeg i awyr iach llawn, os nad yw hyn yn bosibl dylid gweithredu'r systemau'n ôl yr arfer. Pan fydd hidlyddion mewn unedau awyru, gwnewch yn siŵr bod rhagor o ragofalon yn cael eu cymryd wrth newid yr hidlyddion.
- Cynnal Asesiad Risg diwygiedig **yn unol â chanllawiau'r Awdurdod**

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://llyw.cymru/ymarfer-perfformio-chymryd-rhan-yn-y-celfyddydau-perfformio-canllawiau-ar-gyfer-dychwelyd-yn-raddol** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Gweithredol Iechyd a Diogelwch

Mae **Undeb y Cerddorion wedi llunio canllawiau** a allai fod yn ddefnyddiol ichi.

3.23 Gweithgareddau celfyddydol cyfranogol

Mae cyfranogiad celfyddydol yn cyfeirio at bobl yn cymryd rôl weithredol; yn gwneud ac yn creu. Mae hyn yn wahanol i fynychu sy'n golygu mwynhad cymharol oddefol o weithgareddau wedi'u dylunio a'u cyflwyno gan eraill. Mae cyfranogiad yn cynnwys creu canlyniad gan y cyfranogwr ei hun mewn profiad uniongyrchol o ffurf ar arfer celfyddydol. Yn gyffredinol, bydd yr unigolyn yn rhan o weithred o greadigrwydd, yn aml dan arweiniad ymarferydd, artist neu berfformiwr, ond bydd yn ofynnol cael mewnbwn creadigol gan y cyfranogwr.

Gall prosiectau o'r fath gael eu cynnal mewn amrywiaeth o lefydd o leoliadau celfyddydau traddodiadol i leoliadau iechyd a gofal cymdeithasol. Fel y cyfryw, dylech ddilyn yr un canllawiau ar gelfyddyd neu sy'n seiliedig ar leoliad a chanllawiau ehangach a fyddai'n gymwys i fathau eraill o weithgaredd.

Mae rhai prosiectau cyfranogol yn gweithio gyda phobl sy'n agored iawn i niwed. Os bydd hyn yn digwydd mewn lleoliad gofal iechyd, rhaid ichi ddilyn y polisïau a'r protocolau a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Iechyd perthnasol ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Os ydych yn artist neu'n sefydliad sy'n arwain gweithgaredd celfyddydol cyfranogol, dylech:

- Rhaid ichi gymryd pob mesur rhesymol i sicrhau bod eich gofod/adeilad wedi cael y paratoadau COVID priodol. Dylid cynnal asesiad risg clir a thrylwyr cyn i gyfranogwyr ddychwelyd er mwyn sicrhau bod y gofodau yn bodloni rheoliadau a safonau diogelwch priodol.
- sicrhau bod unrhyw aelod o staff, gweithiwr neu ymarferydd wedi cael yr asesiad risg ymlaen llaw a'u bod yn deall y cynnwys. Efallai y byddwch am ystyried llawlyfr staff ar COVID a sesiwn hyfforddi staff i dynnu sylw at reoliadau a chyfrifoldebau tiwtoriaid. Mae angen i sefydliad sy’n rhoi

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://llyw.cymru/ymarfer-perfformio-chymryd-rhan-yn-y-celfyddydau-perfformio-canllawiau-ar-gyfer-dychwelyd-yn-raddol** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

canllawiau i staff ac artistiaid dan gontract sicrhau eu bod wedi paratoi'n llwyr a'u bod yn barod i arwain sesiynau
- neilltuo arweinwyr sesiwn i sicrhau bod yr holl gyfarpar yn cael ei **lanhau**'n drylwyr rhwng pob sesiwn yn cynnwys propiau, cyfarpar sain a chlustffonau. Ni ddylai propiau gael eu rhannu rhwng cyfranogwyr heb gael eu glanhau yn gyntaf.
- ystyried goblygiadau ariannol ailddechrau cynnal gweithgareddau. Mae'n bwysig bod pawb yn dychwelyd i'r gwaith cyn gynted ag y bo'n ddiogel iddynt wneud hynny, ond dylai unigolion a sefydliadau wneud hynny yn llwyr ymwybodol o'r costau ychwanegol y gallai fod eu hangen ar gyfer recriwtio mwy o staff, cynnal sesiynau ychwanegol â grwpiau bach, prynu cyfarpar glanhau ac ati.

Mae llawer o'r materion sy'n effeithio ar y Celfyddydau Cyfranogol yn debyg i'r rhai ar gyfer Dawns Gymunedol. Felly, dylech eu cynghori i ddarllen yr adran hon ochr yn ochr â'r canllawiau isod yn adran 3.6.

3.24 Dawns Gymunedol

Mae heriau penodol yn gysylltiedig â mathau penodol o berfformio corfforol. Mae Dawns Gymunedol yn gyfranogol yn bennaf ac mae'n ddibynnol ar ryngweithio corfforol i raddau helaeth, sy'n aml yn cynnwys gweithio agos, a chyswllt corfforol drwy ddawnsio gyda phartner neu mewn grŵp. Bydd effaith COVID-19 a chadw **pellter** cymdeithasol yn ei gwneud yn ofynnol i arweinwyr ac ymarferwyr dawns gymunedol addasu eu hymarfer er mwyn dod o hyd i ffyrdd gwahanol o gynnal a rheoli cyswllt.

Yn y pen draw bydd cyfanswm maint eich grŵp yn dibynnu ar le. Rhaid ystyried y **rheoliadau** cadw pellter corfforol wrth wneud y penderfyniad, a'r terfyn ar nifer y bobl a gaiff **gwrdd** yn gyfreithiol sef 15 ar gyfer digwyddiadau dan do a 30 ar gyfer digwyddiadau yn yr awyr agored. Mae'n bosibl hefyd y bydd angen ystyried goblygiadau ariannol cynnal sesiynau ychwanegol gyda grwpiau llai.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://llyw.cymru/ymarfer-perfformio-chymryd-rhan-yn-y-celfyddydau-perfformio-canllawiau-ar-gyfer-dychwelyd-yn-raddol** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Grwpiau Dawns Gymunedol (sy'n gweithio yn eu gofodau eu hunain)

Mae grwpiau dawns gymunedol yn cynnwys sefydliadau o feintiau amrywiol ac maent yn gweithio mewn amrywiaeth eang o leoliadau. Mae gan lawer o grwpiau eu stiwdios a'u lleoliadau eu hunain. Fodd bynnag, yn aml caiff ymarferwyr dawns eu gwahodd i leoliadau eraill (fel **neuaddau cymunedol**, ysgolion a lleoliadau gofal) neu maent yn gweithredu mewn lleoliadau sy'n cael eu llogi.

Dylech wneud y canlynol:

- sicrhau bod eich gofod/adeilad wedi cael y paratoadau COVID priodol. Dylid cynnal asesiad risg clir a thrylwyr cyn i gyfranogwyr ddod yn ôl i'r dosbarthiadau er mwyn sicrhau bod y gofodau yn bodloni rheoliadau a safonau diogelwch priodol. Dylai trefnwyr fod yn ymwybodol o derfynau cyfreithiol ar nifer y bobl a gaiff fynychu dosbarthiadau dan do, ac ystyried capasiti'r ystafell i ganiatáu pellter cymdeithasol o ddau fetr rhwng y cyfranogwyr (gan gynnwys tiwtoriaid, helpwyr ac ati). Mae'n bosibl y bydd canllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer lleoliadau chwaraeon a hamdden yn **ddefnyddiol**.
- sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi cael yr asesiad risg ymlaen llaw a'u bod yn deall y cynnwys. Efallai y byddwch am ystyried llawlyfr staff ar COVID a sesiwn hyfforddi staff i dynnu sylw at reoliadau a chyfrifoldebau tiwtoriaid. Mae angen i sefydliad sy'n rhoi canllawiau i staff ac artistiaid dan gontract sicrhau eu bod wedi paratoi'n llwyr a'u bod yn barod i arwain sesiynau
- cofio y gallai sesiynau ac ymarferion olygu bod cyfranogwyr yn anadlu'n ddyfnach ac yn chwysu. Gwyddom fod defnynnau a gaiff eu hanadlu allan yn trosglwyddo feirysau. Mae angen ystyried hyn wrth gynllunio sesiynau, yn enwedig ar gyfer sesiynau dawns. Bydd tymheredd y gofodau yn ystyriaeth bwysig. Y cyngor yw y dylid cael gofodau ag awyru da, ond gallai hyn beri problem i'r bobl sy'n fwy agored i niwed. Ni ddylid defnyddio gwyntyllau sy'n cylchredeg aer
- er y gall gweithio yn yr awyr agored fod yn dderbyniol yn ystod yr haf ac mae angen ystyried canllawiau cyffredinol mewn perthynas â hyn fel lefelau sŵn, y ffaith y gall gweithio yn yr awyr agored ei gwneud yn ofynnol i'r hwylusydd

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://llyw.cymru/ymarfer-perfformio-chymryd-rhan-yn-y-celfyddydau-perfformio-canllawiau-ar-gyfer-dychwelyd-yn-raddol** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

a'r cyfranogwyr godi eu lleisiau yn fwy, diogelwch cyfranogwyr a'r cyhoedd ehangach, ac ati
- ei gwneud yn ofynnol i arweinwyr sesiynau sicrhau bod yr holl gyfarpar yn cael ei **lanhau**'n drylwyr rhwng pob sesiwn yn cynnwys propiau a chyfarpar sain. Ni ddylai propiau gael eu rhannu rhwng cyfranogwyr heb gael eu glanhau yn gyntaf.

Grwpiau Dawns Gymunedol (llogi gofod)

Dylech wneud y canlynol:

- sicrhau bod pob gofod yn cael asesiad risg ar wahân a chadarnhau y gall y gofod a logwyd gydymffurfio â'r rheoliadau. Dim ond os yw'n gallu cydymffurfio â'r rheoliadau perthnasol ar gyfer safleoedd y dylid defnyddio gofod.
- os byddwch yn llogi gofod, siaradwch â'r rheolwyr llogi i gael canllawiau clir ynghylch eu gweithdrefnau ar gyfer dilyn rheoliadau COVID. Dylech chi a'r lleoliad rannu'r asesiadau risg. Er enghraifft, gall fod yn ofynnol i'r lleoliad gael cofnodion mewn perthynas â'r cynllun Profi Olrhain **Diogelu**. Os felly, bydd angen ichi roi cynlluniau ar waith i gydymffurfio â hyn. Bydd rhaid ichi gydymffurfio ag unrhyw systemau rheoli mae'r lleoliad wedi eu rhoi ar waith i sicrhau diogelwch o ran COVID-19 – yn benodol mewn perthynas â maint yr ystafell, yr uchafswm capasiti gan ganiatáu ar gyfer cadw pellter cymdeithasol o ddau fetr, a'r cyfyngiadau cyfreithiol ar nifer y bobl a gaiff fynychu.
- sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi cael yr asesiad risg ymlaen llaw a'u bod yn deall y cynnwys. Efallai y byddwch am ystyried llawlyfr staff ar COVID a sesiwn hyfforddi staff i dynnu sylw at reoliadau a chyfrifoldebau tiwtoriaid. Mae angen i sefydliad sy'n rhoi canllawiau i staff ac artistiaid dan gontract sicrhau eu bod wedi paratoi'n llwyr a'u bod yn barod i arwain sesiynau

Materion gweithdrefnol: sicrhau bod dawns gymunedol yn digwydd

P'un a yw Grŵp yn defnyddio ei safle ei hun neu safle rhywun arall, byddai'r

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://llyw.cymru/ymarfer-perfformio-chymryd-rhan-yn-y-celfyddydau-perfformio-canllawiau-ar-gyfer-dychwelyd-yn-raddol** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

ystyriaethau canlynol yn gymwys:

- mae angen i artistiaid a sefydliadau ystyried goblygiadau ariannol ailddechrau cynnal sesiynau – costau ychwanegol ar gyfer recriwtio mwy o staff, cynnal sesiynau ychwanegol gyda grwpiau bach, prynu cyfarpar glanhau, ac ati.
- mae llawer o sefydliadau yn gweithio gyda grwpiau mawr. Rhaid ystyried costau ymarferol ac ariannol cwtogi maint grwpiau er mwyn gallu cadw pellter cymdeithasol mewn perthynas â maint ystafelloedd a'r cyfyngiadau cyfreithiol ar y niferoedd uchaf.
- dylai pob gweithiwr proffesiynol sicrhau bod ei Gwmni Yswiriant yn ymwybodol ac yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am yr holl gynlluniau. Bydd gofynion yswiriant yn ei gwneud yn ofynnol ichi ddilyn holl weithdrefnau'r Llywodraeth
- ystyried sut y bydd y cyhoedd yn cyrraedd ac yn gadael yr adeilad. Lle y bo'n bosibl, mapiwch system unffordd a defnyddiwch ddrysau gwahanol ar gyfer cyrraedd a gadael y gofod
- Dylid osgoi ymgynnull mewn ystafelloedd newid, ystafelloedd aros, cynteddau ac ati ar bob cyfrif.
- nodi ble y dylai cyfranogwyr adael eu heiddo wrth gyrraedd sesiynau fel nad oes dim yn dod i gysylltiad â neb arall. Dylid gofyn i gyfranogwyr dynnu eu hesgidiau cyn cyrraedd y gofod. Dylid rheoli amseroedd cyrraedd sesiynau yn fanwl er mwyn sicrhau na fydd pawb yn cyrraedd ar yr un pryd
- sicrhau cynllun clir ynghylch defnyddio toiledau, yn enwedig ar gyfer grwpiau plant – ni ddylai'r daith i'r toiled effeithio ar ganllawiau ar gyfer cadw pellter cymdeithasol na rheolau llym ynghylch golchi dwylo a **hylendid** anadlol. Dylid nodi 'oedolyn cyfrifol' penodol i gefnogi hyn
- sicrhau bod cyfranogwyr yn cadw pellter, marcio ardaloedd perfformio ar gyfer pob unigolyn ar y llawr sydd hefyd yn cynnwys llwybrau unffordd i bobl y mae angen iddynt gyrraedd/gadael eu hardal
- caniatáu digon o amser rhwng digwyddiadau. Yn draddodiadol, mae llawer o grwpiau yn cynnal un sesiwn ar ôl y llall gyda'r nos gyda 5 munud o amser cylchdroi rhwng pob sesiwn. Bydd angen mwy o amser er mwyn galluogi cyfranogwyr i adael a chyrraedd yn ddiogel a **glanhau** rhwng pob sesiwn. Mae'n debygol y bydd angen 30 munud ychwanegol rhwng sesiynau a bydd angen ystyried goblygiadau ymarferol ac ariannol hyn

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://llyw.cymru/ymarfer-perfformio-chymryd-rhan-yn-y-celfyddydau-perfformio-canllawiau-ar-gyfer-dychwelyd-yn-raddol** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

- mae llawer o sefydliadau yn cynnal prosesau cofrestru a thalu ar ddechrau pob sesiwn. Lle y bo'n bosibl, dylid osgoi trin arian parod a chreu system i bobl gofrestru a thalu ar-lein.
- ystyried a allai fod angen aelod ychwanegol o staff/gwirfoddolwr sy'n oedolyn ar sesiynau er mwyn helpu'r tiwtor i gadw at y canllawiau. Gallai grwpiau fod am ystyried cyflogi/penodi 'Rheolwr COVID'. Bydd angen cynnwys aelodau ychwanegol o staff mewn unrhyw uchafswm nifer o bobl mae'r ddeddfwriaeth yn eu caniatáu mewn ystafell benodol.

Gweithio gyda Chyfranogwyr

Yn ogystal â'r canllawiau a nodir uchod ynghylch defnyddio gofodau dawnsio, dylid ystyried y canlynol mewn perthynas ag ailddechrau cynnal sesiynau wyneb yn wyneb gyda dawnswyr o bob oed, gallu ac arddull dawnsio:

- Dim ond os gellir cynnal sesiynau sy'n hygyrch, a all gadw pellter, ac sy'n ddiogel, y dylid ailddechrau eu cynnal
- Ystyried a allai fod angen aelod ychwanegol o staff/gwirfoddolwr sy'n oedolyn ar sesiynau er mwyn helpu'r tiwtor i gadw at y canllawiau. Gallai grwpiau fod am ystyried cyflogi/penodi 'Rheolwr COVID'. Bydd angen cynnwys aelodau ychwanegol o staff mewn unrhyw uchafswm nifer o bobl mae'r ddeddfwriaeth yn eu caniatáu mewn ystafell benodol.
- Efallai y bydd artistiaid, grwpiau a sefydliadau yn awyddus i ymgynghori â'u grwpiau a'u cymunedau ynghylch ailddechrau sesiynau. Hefyd, gallai datganiad paratoi a gyhoeddwyd i'ch cymunedau godi hyder pobl o ran ailddechrau mynychu
- Gallai fod yn ofynnol i ddata cyfranogwyr gael eu defnyddio ar gyfer y system Profi Olrhain **Diogelu**. Mae'n bwysig diweddaru polisïau GDPR er mwyn sicrhau bod cyfranogwyr yn gwybod hyn a'u bod yn ymwybodol y gall fod angen trosglwyddo gwybodaeth i'r cynllun. Ni ddylai cyfranogwyr fod yn bresennol os bydd swyddog olrhain cysylltiadau wedi gofyn iddynt hunanynysu.
- Dylech gynllunio eich sesiynau er mwyn lleihau cyswllt corfforol rhwng cyfranogwyr
- Yn dibynnu ar yr ymdrech a'r egni sy'n ofynnol yn eich sesiwn, gall fod angen ystyried marcio gofodau ar y llawr sy'n fwy na 2 fetr

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://llyw.cymru/ymarfer-perfformio-chymryd-rhan-yn-y-celfyddydau-perfformio-canllawiau-ar-gyfer-dychwelyd-yn-raddol** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

- Dylai lefel y gerddoriaeth olygu nad oes angen i'r tiwtor godi ei lais er mwyn osgoi lledaenu defnynnau aerosol. Gellid ystyried defnyddio microffonau
- Ni ddylai propiau gael eu rhannu rhwng cyfranogwyr. Dylid **glanhau** pob prop yn drylwyr ar ddechrau ac ar ddiwedd pob sesiwn. Efallai y byddwch am osgoi defnyddio propiau ffabrig y mae'n anoddach eu glanhau rhwng sesiynau oni bai fod modd eu golchi.
- Cyn i'r sesiynau ail-gychwyn, dylech ystyried gofyn i'ch cyfranogwyr (neu eu rhieni/gofalwyr yn achos grwpiau o blant) gytuno ar 'ymwadiad'; eu bod yn deall bod ganddyn nhw hefyd gyfrifoldeb i gadw at yr holl ganllawiau a chyfarwyddiadau diogel o ran COVID yn y dosbarth a chytuno i beidio â mynychu sesiynau os oes ganddynt unrhyw **symptomau**, ni waeth pa mor ysgafn ydynt. Fodd bynnag, rhaid cofio efallai y bydd plant yn ei chael yn anodd deall a gwneud yr hyn a ddisgwylir ganddynt. Bydd angen cyflwyno'r rheolau iddynt mewn modd sy'n addas i'w hoedran ac mae'n bosibl y bydd angen eu hatgoffa am y rheolau.
- Dylech sicrhau bod eich cyfranogwyr yn gwybod yn union beth i'w ddisgwyl pan fyddant yn dychwelyd i sesiynau yn cynnwys golchi dwylo a gweithdrefnau **hylendid** anadlol, cyrraedd a gadael y gofod, sut y caiff y gofod ei farcio, gweithdrefnau o ran defnyddio'r toiled a sut y caiff y sesiynau eu cynnal. Dylech sicrhau bod cyfranogwyr yn ymwybodol o'r gweithdrefnau Profi Olrhain **Diogelu**
- Dylech sicrhau mai dim ond pethau angenrheidiol y bydd cyfranogwyr yn dod gyda nhw i'r gofod
- Dylech sicrhau bod cyfranogwyr yn gwisgo digon o haenau i allu gweithio'n ddiogel mewn gofodau y gallai fod angen eu hawyru'n dda

Gweithio gyda phobl sy'n agored i niwed

Mae llawer o waith celfyddydau cyfranogol/dawns gymunedol yn cynnwys gweithio gyda phobl sy'n agored i niwed yn cynnwys plant, pobl hŷn a phobl anabl. Mae'n hanfodol na fydd unrhyw reoliadau COVID a gaiff eu rhoi ar waith yn effeithio ar bolisïau sefydliadau ar gyfer Diogelu Plant ac Oedolion sy'n Agored i Niwed neu greu problemau o ran anghydraddoldeb neu broblemau hygyrchedd. Dylid cofio hefyd fod rhai pobl mewn **risg** uwch o fod yn ddifrifol wael os ydynt yn dod i gysylltiad â'r feirws.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://llyw.cymru/ymarfer-perfformio-chymryd-rhan-yn-y-celfyddydau-perfformio-canllawiau-ar-gyfer-dychwelyd-yn-raddol** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Byddai'r materion ychwanegol canlynol hefyd yn gymwys:

- Dim ond os gellir cynnal sesiynau sy'n hygyrch, a all gadw pellter, ac sy'n yn ddiogel i bob cyfranogwr y dylid ailddechrau eu cynnal
- Rhaid rhoi blaenoriaeth i Gydraddoldeb a Hygyrchedd o hyd – dylid ystyried yr holl ganllawiau a chynllunio ar eu cyfer gan ystyried pob cyfranogwr. Mae hyn hefyd yn wir am Ddiogelu Plant ac Oedolion sy'n Agored i Niwed a rheoliadau GDPR. Mae angen ailystyried yn ofalus waith gyda phobl ag anableddau lle mae cyswllt agos a chyffyrddadwy wedi bod yn hanfodol er mwyn sicrhau y gellir gweithio'n ddiogel heb golli'r profiad
- Ystyried a allai fod angen aelod ychwanegol o staff/gwirfoddolwr sy'n oedolyn ar sesiynau er mwyn helpu'r tiwtor i gadw at y canllawiau. Gallai grwpiau fod am ystyried cyflogi/penodi 'Rheolwr COVID'. Bydd angen cynnwys aelodau ychwanegol o staff mewn unrhyw uchafswm nifer o bobl mae'r ddeddfwriaeth yn eu caniatáu mewn ystafell benodol.
- Efallai y bydd artistiaid, grwpiau a sefydliadau yn awyddus i ymgynghori â'u grwpiau a'u cymunedau ynghylch ailddechrau sesiynau. Hefyd, gallai datganiad paratoi a gyhoeddwyd i'ch cymunedau godi hyder pobl o ran ailddechrau mynychu
- Gallai fod yn ofynnol i ddata cyfranogwyr gael eu defnyddio ar gyfer y system Profi Olrhain **Diogelu**. Mae'n bwysig diweddaru polisïau GDPR er mwyn sicrhau bod cyfranogwyr yn gwybod hyn a'u bod yn ymwybodol y gall fod angen trosglwyddo gwybodaeth i'r cynllun.
- Dylid sicrhau bod Asesiadau Risg ar gael i bartneriaid, rheolwyr lleoliadau a chyfranogwyr os gwneir cais amdanynt
- Rhaid i arweinwyr sesiynau sicrhau bod yr holl gyfarpar yn cael ei **lanhau**'n drylwyr rhwng pob sesiwn yn cynnwys propiau a chyfarpar sain. Ni ddylai propiau gael eu rhannu rhwng cyfranogwyr heb gael eu glanhau cyn ac ar ôl eu defnyddio.

3.25 Prosiectau'r Celfyddydau ac Iechyd

Gall prosiectau'r Celfyddydau ac Iechyd gael eu cynnal mewn amrywiaeth o lefydd o leoliadau celfyddydau traddodiadol i leoliadau iechyd a gofal cymdeithasol. Fel y cyfryw, dylech ddilyn yr un canllawiau ar gelfyddyd neu sy'n seiliedig ar leoliad a fyddai'n gymwys i fathau eraill o weithgaredd.

> **Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
> Ewch i **https://llyw.cymru/ymarfer-perfformio-chymryd-rhan-yn-y-celfyddydau-perfformio-canllawiau-ar-gyfer-dychwelyd-yn-raddol** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
> Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Yn y pen draw bydd cyfanswm maint eich grŵp yn dibynnu ar le. Rhaid ystyried y **rheoliadau** cadw pellter corfforol wrth wneud y penderfyniad, a'r terfyn ar nifer y bobl a gaiff gwrdd yn gyfreithiol. Mae'n bosibl hefyd y bydd angen ystyried goblygiadau ariannol cynnal sesiynau ychwanegol gyda grwpiau llai.

Mae rhai prosiectau yn gweithio gyda phobl sy'n agored iawn i niwed. Os bydd hyn yn digwydd mewn lleoliad iechyd neu ofal, rhaid ichi ddilyn y polisïau a'r protocolau a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Iechyd perthnasol, y lleoliad a Llywodraeth Cymru.

3.26 Theatr gorfforol, syrcas a digwyddiadau awyr agored

Theatr gorfforol/syrcas

Yn y pen draw bydd cyfanswm maint eich grŵp yn dibynnu ar le. Rhaid ystyried y **rheoliadau** cadw pellter corfforol wrth wneud y penderfyniad, a'r terfyn ar nifer y bobl a gaiff gwrdd yn gyfreithiol. Mae'n bosibl hefyd y bydd angen ystyried goblygiadau ariannol cynnal sesiynau ychwanegol gyda grwpiau llai.

Mae llawer o'r strategaethau a amlinellir yn y canllawiau hyn ar gyfer cynnal amodau gweithio diogel hefyd yn gymwys i theatr gorfforol a gweithgareddau syrcas. Mae asesu risg yn arbennig o bwysig. **Cymdeithas Genedlaethol Artistiaid Stryd y DU**.

Mae syrcasau yn rhannu rhai nodweddion penodol sy'n benodol i'r gelfyddyd. Er enghraifft, mae gan y rhan fwyaf ohonynt leoliadau awyr agored pwrpasol; ac mae'r rhan fwyaf o gwmnïau'n teithio ac yn aros yn eu cerbydau eu hunain gan greu eu grŵp gwaith eu hunain o ran cadw pellter corfforo i bob pwrpas.

Un mater allweddol yw trin ymwelwyr yn ofalus, yn enwedig ar ddechrau ac ar ddiwedd sioeau. Dylech wneud yn siŵr bod ymwelwyr wedi archebu tocynnau ymlaen llaw lle bynnag y bo'n bosibl. Dylech hefyd wneud y canlynol:

- Cynghori ymwelwyr i ymweld â'ch gwefan cyn gadael eu cartref i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am y digwyddiad, a'u bod yn cyrraedd mewn da bryd i allu mynd i mewn i'r lleoliad mewn ffordd sy'n ddiogel yn gorfforol

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://llyw.cymru/ymarfer-perfformio-chymryd-rhan-yn-y-celfyddydau-perfformio-canllawiau-ar-gyfer-dychwelyd-yn-raddol** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

- cyflwyno canllawiau ar gadw **pellter** cymdeithasol mewn ciwiau/toiledau/ stondinau bwyd
- Cynghori'r ymwelwyr y gall fod ciwiau hir i doiledau oherwydd trefniadau glanhau gwell ac i sicrhau bod toiledau'n cael eu glanhau bob tro maent yn cael eu defnyddio (dylech sicrhau bod toiledau hygyrch wedi'u cadw'n benodol ar gyfer pobl anabl)
- bod ymwelwyr yn ymwybodol eich bod chi wedi gosod sgriniau hylendid ar stondinau bwyd ac wedi cyflwyno mesurau glanhau gwell er mwyn diheintio mannau sy'n cael eu cyffwrdd yn aml fel cownteri, canllawiau ac ati
- bod ymwelwyr yn ymwybodol y byddwch yn glanhau'n drylwyr rhwng sioeau. Bydd gorsafoedd diheintio dwylo ar gael ym mhob ardal
- bod ymwelwyr yn ymwybodol y bydd staff yn defnyddio Cyfarpar Diogelu Personol fel sy'n briodol i ddiogelu eu hunain ac ymwelwyr

Digwyddiadau awyr agored

Os byddwch yn trefnu digwyddiadau dan do ac yn yr awyr agored, rhaid cymryd pob mesur rhesymol i sicrhau y gall pobl barhau i gymryd camau priodol i gadw pellter corfforol. Darllenwch y canllawiau cyfredol ar gyfarfod mewn **grwpiau** wrth drefnu digwyddiadau, gan ystyried y nifer uchaf o bobl sy'n cael cwrdd yn gyfreithlon.

Dylai busnesau neu leoliadau unigol ystyried effaith gronnol cael llawer o leoliadau yn ailagor mewn ardal fach. Mae hyn yn golygu gweithio gydag awdurdodau lleol, busnesau cyfagos a chwmnïau teithio i asesu'r risg hon a rhoi mesurau lliniaru ychwanegol ar waith.

Gallai'r rhain gynnwys:

- lleihau'r capasiti ymhellach – hyd yn oed os yw'n bosibl i nifer penodol o bobl eistedd yn ddiogel mewn lleoliad, efallai na fydd yn ddiogel iddynt deithio na chael mynediad i'r lleoliad hwnnw
- gwasgaru amseroedd cyrraedd gyda lleoliadau eraill a chymryd camau i osgoi ciwiau mewn ardaloedd cyfagos
- trefnu llwybrau teithio unffordd rhwng hybiau trafnidiaeth a lleoliadau
- cynghori'r rhai sy'n mynychu i osgoi mathau penodol o drafnidiaeth neu

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://llyw.cymru/ymarfer-perfformio-chymryd-rhan-yn-y-celfyddydau-perfformio-canllawiau-ar-gyfer-dychwelyd-yn-raddol** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

lwybrau penodol ac i osgoi ardaloedd poblog wrth deithio i'r lleoliad

Bysgio

Mae bysgio yn fath penodol o weithgaredd awyr agored a all gymryd sawl ffurf, o gerddorion i jyglwyr, consuriwyr i acrobatiaid. Bydd y rhan fwyaf o'r canllawiau cyffredinol a nodir yma yn gymwys i fysgio. Fodd bynnag, mae rhai pwyntiau penodol yn ymwneud â rheoli torfeydd a rhoddion sy'n berthnasol.

Mae "Keep Streets Live" wedi cyhoeddi **canllawiau ar hyn**.

4.0 Rheoli cynulleidfaoedd a pherfformiadau

Mae'n bwysig lleihau achosion o drosglwyddo a chadw pellter cymdeithasol cyn, yn ystod ac ar ôl perfformiadau byw

Wrth ymateb i'r canllawiau a'r cyngor yn yr adran hon, dylech wneud y canlynol:

- Sicrhau bod maint y gynulleidfa, y trefniadau a'r perfformiadau a gaiff eu llwyfannu yn sicrhau y gellir cadw pellter cymdeithasol – dylai asesiadau risg ystyried yn benodol y terfyn capasiti ar gyfer perfformiad penodol ar ôl i **fesurau** rhesymol gael eu rhoi ar waith i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r feirws, ac ar ôl cynnwys y gofyniad i gadw pellter corfforol a'r gallu i reoli ymddygiad y gynulleidfa
- Lleihau capasiti safle neu leoliad a chyfyngu ar nifer y tocynnau a werthir i swm sy'n sicrhau y gellir cadw pellter corfforol o 2m ar bob adeg. Bydd angen i berfformiadau am ddim, agored, heb docynnau a heb ffiniau ddangos bod dull rhesymol ar waith ar gyfer rheoli niferoedd os bydd gormod o bobl yn dechrau cyrraedd, a bod mesurau priodol ar waith i sicrhau y cedwir pellter cymdeithasol ar bob adeg.
- Rheoli amserlenni perfformiadau fel nad yw cynulleidfaoedd ar gyfer perfformiadau gwahanol yn defnyddio'r safle neu'r lleoliad ar yr un pryd mewn ffordd sy'n golygu na ellir cadw pellter cymdeithasol, a sicrhau bod mesurau **glanhau** digonol ar waith.
- Sicrhau bod asesiadau risg yn ystyried diogelwch gweithwyr yn ofalus, yn

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://llyw.cymru/ymarfer-perfformio-chymryd-rhan-yn-y-celfyddydau-perfformio-canllawiau-ar-gyfer-dychwelyd-yn-raddol** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

enwedig y rheini sy'n gweithio'n agos gyda nifer mawr o aelodau o'r cyhoedd neu'r gynulleidfa.
- Rheoli'r risg bod alcohol yn effeithio ar y gallu i gadw pellter cymdeithasol drwy reoli'r alcohol a gaiff ei brynu neu ei yfed pan fydd angen.
- Ystyried lle y gallai torfeydd ymgynnull fel mewn mynedfeydd ac allanfeydd, meysydd parcio, cyfleusterau golchi dwylo a thoiledau, ardaloedd aros, bariau a bwytai ac mewn ardaloedd sy'n agos at ardaloedd perfformio, a rhoi mesurau priodol ar waith i reoli pobl wrth iddynt symud ac i sicrhau eu bod yn cadw pellter corfforol
- Ymgynghori ag awdurdodau perthnasol a chael cyngor arbenigol ar y ffordd orau o werthuso effaith, datblygu strategaethau lliniaru a chydlynu asiantaethau allanol perthnasol os bydd angen.

4.1 Gwerthu tocynnau a chymryd taliadau

Er mwyn cadw pellter cymdeithasol o 2m wrth reoli'r broses o werthu tocynnau a chymryd taliadau, dylid cyfyngu ar nifer y tocynnau a werthir i swm sy'n sicrhau y gellir cadw pellter cymdeithasol o 2m mewn ardaloedd sefyll/seddi fel sy'n briodol. Mae hyn yn gymwys mewn awditoria, rhannau eraill o'r safle neu'r lleoliad, neu ddigwyddiadau awyr agored.

Ymysg y camau y bydd eu hangen fel arfer mae:

- Wrth Ymarfer, Perfformio a Chymryd Rhan yn y Celfyddydau Perfformio nad ydynt yn cael eu hystyried yn risg uchel, argymhellir y dylai darparwyr gasglu gwybodaeth gyswllt holl aelodau'r gynulleidfa sydd yn y safle fel rhan o'r strategaeth **Profi, Olrhain a Diogelu**.
- Lle y bo'n bosibl, annog gwesteion i brynu tocynnau ar-lein a defnyddio e-docynnau. Lle nad yw hyn yn bosibl, dylid annog taliadau digyswllt.
- Caniatáu taliadau digyswllt ac atebion technoleg eraill ar yr holl docynnau a brynir yn y safle neu'r lleoliad.
- Glanhau mannau talu/cyfarpar gwerthu tocynnau a gaiff eu cyffwrdd yn rheolaidd yn aml a sicrhau bod digon o ddŵr poeth a sebon ar gael (drwy beiriannau sebon awtomatig os yw'n bosibl) i ddiwallu'r gofynion hylendid dwylo COVID-19. Darparu digon o hylif diheintio dwylo hefyd lle mae hynny'n briodol – mynedfeydd, allanfeydd a phwyntiau talu ac ati.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://llyw.cymru/ymarfer-perfformio-chymryd-rhan-yn-y-celfyddydau-perfformio-canllawiau-ar-gyfer-dychwelyd-yn-raddol** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

- Rhaid ichi gymryd pob mesur rhesymol i sicrhau y cedwir pellter cymdeithasol cymaint â phosibl wrth gadarnhau tocynnau, a rheoli mynedfeydd i atal pobl rhag ymgynnull ar bwys drysau ac ati.
- Cynnig ad-daliad neu docyn ar gyfer digwyddiad arall yn y dyfodol i unigolion nad ydynt yn gallu dod oherwydd bod ganddynt symptomau, neu fod rhaid iddynt hunanynysu gan eu bod yn gysylltiad, neu bobl mae cwarantin yn golygu nad ydynt yn gallu mynychu'r perfformiad.

4.2 Ystafelloedd cotiau

Bydd angen i leoliadau a safleoedd perfformio ystyried p'un a fyddant yn gweithredu ystafelloedd cotiau a sut y byddant yn gwneud hynny, yn benodol:

- Cau ystafelloedd cotiau lle bynnag y bo'n bosibl o ystyried yr heriau o ran gallu eu gweithredu'n ddiogel.
- Eu glanhau'n aml iawn.
- Ystyried defnyddio gweithdrefnau digyswllt lle y bo'n gymwys, fel loceri. Fodd bynnag, bydd rhaid glanhau loceri yn drwyadl bob tro maent yn cael eu defnyddio.

4.3 Rheoli faint o fwyd, diod a deunydd masnach a gaiff eu prynu, a faint o fwyd a diod a gaiff ei fwyta a'i yfed

Dylid cynnal asesiad risg o brosesau paratoi, trin, prynu a bwyta ac yfed bwyd a diod, a deunydd masnach arall a brynir fel rhaglenni a deunydd marchnata arall er mwyn nodi lle y bo angen newid y **gweithdrefnau**.

Dylid ystyried galluogi gwesteion i ragarchebu a chasglu lluniaeth a deunydd masnach arall mewn mannau penodol yn y safle neu'r lleoliad er mwyn sicrhau y gellir cadw pellter cymdeithasol a lleihau ardaloedd prysur. Er enghraifft, osgoi gwerthu rhaglenni neu hufen iâ y tu mewn neu'r tu allan i'r awditoria lle gall torfeydd a chiwiau gronni gan olygu y byddai'n anoddach cadw pellter cymdeithasol.

Ymhlith y camau ychwanegol y gallech eu cymryd mae:

> **Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
> Ewch i **https://llyw.cymru/ymarfer-perfformio-chymryd-rhan-yn-y-celfyddydau-perfformio-canllawiau-ar-gyfer-dychwelyd-yn-raddol** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
> Gwybdaeth am **hawlfraint**.

- Cau cyfleusterau "pick and mix" neu gyfleusterau hunanweini bwyd a diod er mwyn lleihau'r risg o drosglwyddo.
- Defnyddio sgriniau er mwyn creu rhwystr ffisegol rhwng gweithwyr a chwsmeriaid mewn mannau lle byddant yn rhyngweithio.
- Ystyried cynnig gwasanaeth gweini i'r seddi mewn egwylion er mwyn lleihau ardaloedd prysur wrth y bariau.
- Ystyried darparu rhaglenni a deunydd perfformio arall ar ffurf ddigidol.

Ceir canllawiau defnyddiol yn y **canllawiau ar COVID-19**.

4.4 Mynedfeydd, allanfeydd a rheoli llif pobl

Er mwyn cadw pellter cymdeithasol pan fydd pobl yn symud o amgylch y safle neu'r lleoliad yn ystod perfformiadau, fel arfer bydd angen dilyn y mesurau rhesymol canlynol:

- Cyfyngu ar nifer y mynedfeydd ac allanfeydd a rheoli'r rhain i atal pobl rhag ymgynnull
- Addasu amserlenni perfformiadau er mwyn sicrhau y gellir cadw pellter cymdeithasol a chynnal trefniadau **glanhau** priodol. Er enghraifft, amserlennu digon o amser rhwng perfformiadau i leihau'r posibilrwydd y bydd cynulleidfaoedd gwahanol yn mynd yn agos at ei gilydd a sicrhau amser i lanhau.
- Defnyddio gofod y tu allan i'r safle neu'r lleoliad ar gyfer ciwio pan fydd hynny'n bosibl ac yn ddiogel. Dylid rheoli ciwiau er mwyn sicrhau nad ydynt yn achosi risg i unigolion, busnesau eraill na risgiau diogelwch ychwanegol, er enghraifft drwy gyflwyno systemau ciwio, cael staff i gyfeirio ymwelwyr neu gynulleidfa, a diogelu ciwiau rhag traffig drwy eu tywys yn ôl y tu ôl i strwythurau ffisegol parhaol fel dodrefn stryd, raciau beics, bolardiau neu godi rhwystrau.
- Gweithio gyda'ch awdurdod lleol neu eich landlord i ystyried effaith eich prosesau, er enghraifft ciwiau, ar fannau cyhoeddus fel y stryd fawr a meysydd parcio cyhoeddus.
- Lleihau achosion lle y gallai fod angen i bobl giwio. Er enghraifft:
  - wrth fynedfeydd ac allanfeydd i'r adeilad;
  - grisiau symudol, grisiau a lifftiau;

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://llyw.cymru/ymarfer-perfformio-chymryd-rhan-yn-y-celfyddydau-perfformio-canllawiau-ar-gyfer-dychwelyd-yn-raddol** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

    - ciosgau tocynnau a chonsesiynau a mannau dilysu tocynnau;
    - mynedfeydd ac allanfeydd i'r awditoria; a
    - thoiledau ac ystafelloedd ymolchi.
- Lle y bo'n bosibl, neilltuo staff i reoli ciwiau a rheoli mynediad i westeion rhwng ardaloedd.
- Sicrhau eich bod wedi cytuno ar weithdrefnau gwacáu priodol a mannau ymgynnull os bydd argyfwng.
- Annog ymwelwyr i ddefnyddio hylif diheintio dwylo neu gyfleusterau golchi dwylo wrth iddynt gyrraedd y safle neu'r lleoliad.
- Defnyddio systemau rheoli ciwiau a marcio systemau unffordd ym mhob rhan o'r safle neu'r lleoliad er mwyn lleihau mannau cyswllt. Er enghraifft, cyflwyno systemau unffordd drwy'r ardaloedd cyffredin, gan ddefnyddio allanfeydd tân yr awditoriwm fel yr allanfeydd y dylid eu defnyddio fel nad yw'n ofynnol i westeion basio ei gilydd wrth gyrraedd a gadael y gofodau hyn.
- Helpu ymwelwyr i gadw pellter cymdeithasol drwy roi marciau gweladwy ar hyd y lloriau neu'r waliau, yn cynghori ynghylch y gofod 2m priodol.
- Sicrhau bod unrhyw newidiadau i'r trefniadau ar gyfer rheoli mynedfeydd, allanfeydd a chiwiau yn ystyried addasiadau rhesymol i'r rheini sydd eu hangen, gan gynnwys ymwelwyr anabl. Er enghraifft, cynnig mynediad cerdded a pharcio i gwsmeriaid anabl.
- Ystyried anghenion penodol y rheini sydd â nodweddion gwarchodedig, fel y rheini sydd â nam ar eu clyw neu ar eu golwg.
- Gall fod angen stiwardiaid/swyddogion ychwanegol mewn ardaloedd prysur allweddol a dylid symud unrhyw rwystrau wrth allanfeydd a allai achosi torfeydd. Dylid ystyried hyn fel rhan o gynllun rheoli torfeydd y digwyddiad, gan ymgynghori â'r rheini sy'n gyfrifol am reoli diogelwch a swyddogion ac ati.
- Dylid ystyried rheoli ardaloedd lle ceir llawer o dorfeydd, fel lle mae pobl yn aros i wylio arddangosfeydd, fel rhan o'r cynlluniau er mwyn sicrhau y gellir cadw pellter cymdeithasol.
- Cyfyngu ar y siawns y bydd gwesteion yn dod i gysylltiad â pherfformwyr a staff cymorth, er enghraifft, drwy'r canlynol:
    - Defnyddio diogelwch theatrau i gadw ardaloedd drws y llwyfan yn glir cyn ac ar ôl perfformiad i alluogi perfformwyr a gweithwyr eraill i gyrraedd a gadael yn ddiogel;

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://llyw.cymru/ymarfer-perfformio-chymryd-rhan-yn-y-celfyddydau-perfformio-canllawiau-ar-gyfer-dychwelyd-yn-raddol** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

- Peidio â chaniatáu ymwelwyr i gefn y llwyfan;
- Peidio â chaniatáu i bobl gael llofnod perfformwyr na thynnu ffotograffau â nhw.

4.5 Trefniadau eistedd a'r defnydd o ardaloedd cyffredin (yn cynnwys cyfleusterau lles)

Rhaid rheoli pob awditoriwm neu safle neu leoliad perfformiad er mwyn sicrhau y gellir cadw pellter cymdeithasol.

Ymysg yr egwyddorion allweddol i'w dilyn ar gyfer seddi mae'r canlynol:

- Dylai cynulleidfaoedd gael eu lleoli i eistedd fel unigolion neu grwpiau o'r un aelwyd neu **aelwyd** estynedig;
- Dylai'r unigolion a'r grwpiau hyn gadw pellter cymdeithasol o 2m rhwng ei gilydd;
- Bydd angen goruchwylio ardaloedd cyffredin er mwyn sicrhau y gellir cadw pellter cymdeithasol
- Dylid ystyried seddi a gofodau i'r rheini y mae angen seddi i bobl anabl neu ofod ar gyfer cadair olwyn arnynt o fewn y trefniadau ar gyfer cadw pellter cymdeithasol gan ystyried cyfrifoldebau hygyrchedd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Ymysg y camau ychwanegol y bydd angen eu cymryd fel arfer mae:

- Darparu seddi mewn ffordd sy'n sicrhau y gall unigolion neu grwpiau o'r un aelwyd neu aelwyd estynedig gadw pellter cymdeithasol. Ystyried mesurau fel:
  - darparu seddi cadw a rheoli cynlluniau seddi drwy systemau tocynnau neu â llaw er mwyn sicrhau y gellir cadw pellter cymdeithasol o 2m rhwng grwpiau ac unigolion gwahanol;
  - os na ddarperir seddi cadw, dylid gosod rhwystrau i wahanu seddi neu labelu seddi na ddylid eu defnyddio, neu ddefnyddio staff i helpu'r gynulleidfa i ddefnyddio seddi gan gadw pellter cymdeithasol;
  - disgwylir i westeion gymryd cyfrifoldeb am eu lles eu hunain a lles eraill a chadw pellter cymdeithasol yn yr awditoriwm. Er hyn, dylid defnyddio

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://llyw.cymru/ymarfer-perfformio-chymryd-rhan-yn-y-celfyddydau-perfformio-canllawiau-ar-gyfer-dychwelyd-yn-raddol** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

staff i sicrhau bod y mesurau hyn yn cael eu dilyn. (Gall hyn gynnwys arwyddion a chyhoeddiadau, mwy o fesurau cadarnhau a goruchwylio, yn arbennig cyn bob perfformiad ac ar ddiwedd pob perfformiad);
- annog aelodau o'r gynulleidfa i beidio â dod â bagiau a chotiau i mewn i awditoria lle y bo'n bosibl er mwyn cadw'r seddi yn glir.
- neilltuo egwylion hwy fel y gall aelodau o'r gynulleidfa ddefnyddio'r toiledau'n ddiogel
- atgoffa gwesteion â phlant eu bod yn gyfrifol am eu goruchwylio bob amser ac y dylent ddilyn canllawiau cadw pellter cymdeithasol.
- pennu safleoedd wedi'u dynodi'n glir lle gall staff safleoedd neu leoliadau roi cyngor neu gymorth i westeion gan gadw pellter cymdeithasol.
- glanhau awditoria yn aml iawn ac amserlennu perfformiadau i neilltuo digon o amser i wneud y gwaith **glanhau** angenrheidiol cyn i'r gynulleidfa nesaf gyrraedd.
- gosod canllawiau clir ar ddefnyddio a chyfleusterau lles er mwyn:
  - sicrhau y gellir cadw pellter cymdeithasol cymaint â phosibl; er enghraifft, drwy leihau nifer y troethfeydd, ciwbiclau, basnau ymolchi a sychwyr dwylo sydd ar gael;
  - ystyried y patrymau defnydd tebygol yn ystod perfformiad, er enghraifft yn ystod egwylion, ac addasu unrhyw ofynion neu gyfyngiadau er mwyn lleihau'r tebygolrwydd y bydd yr ardaloedd hyn yn mynd yn brysur;
  - annog gwesteion a chynulleidfaoedd i gymryd cyfrifoldeb am eu lles eu hunain a lles pobl eraill.

5.0 Glanhau gwrthrychau, cyfarpar ac amgylcheddau

5.1 Cyn ailagor

Bydd yn hanfodol sicrhau bod unrhyw safle neu leoliad a fu ar gau (neu'n gweithredu'n rhannol) yn lân ac yn barod i ailddechrau.

Ymysg y camau i'w cymryd mae:

- Asesiad ar gyfer pob safle neu leoliad, neu rannau o safle neu leoliad a fu ar

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://llyw.cymru/ymarfer-perfformio-chymryd-rhan-yn-y-celfyddydau-perfformio-canllawiau-ar-gyfer-dychwelyd-yn-raddol** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

gau, cyn ailagor neu ailddechrau cynnal gweithgareddau.

- Gweithdrefnau glanhau a darparu hylif diheintio dwylo, cyn ailagor neu ailddechrau cynnal gweithgareddau.
- Cyn ailagor mae hi'n bwysig cynnal yr holl archwiliadau arferol er mwyn sicrhau bod yr adeilad yn ddiogel. Os oedd adeiladau wedi cael eu cau neu os oedd llai wedi bod yn eu defnyddio yn ystod COVID-19, mae dŵr yn gallu sefyll oherwydd diffyg defnydd, sy'n cynyddu'r perygl o glefyd y llengfilwyr. **Mae canllawiau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ar reoli dŵr a chlefyd y llengfilwyr ar gael yma**
- Mae'n bosibl y byddai'n ddefnyddiol darllen canllawiau'r Arolygiaeth Dŵr Yfed ar ddefnyddio adeiladau unwaith eto ar ôl iddynt fod yn segur am gyfnod. Mae'r canllawiau'n rhoi sylw i nifer o faterion ansawdd y dylid eu hystyried. Mae'r canllawiau ar gael ar dudalen we gyffredinol yr Arolygiaeth Dŵr Yfed.
- Rhaid ichi gymryd pob mesur rhesymol i sicrhau bod awyru naturiol drwy ffenestri neu fentiau cymaint ag y bo modd. Os defnyddir system awyru fecanyddol ganolog, dylid addasu'r systemau ailgylchredeg i awyr iach llawn, os nad yw hyn yn bosibl dylid gweithredu'r systemau'n ôl yr arfer. Pan fydd hidlyddion mewn unedau awyru, gwnewch yn siŵr bod rhagor o ragofalon yn cael eu cymryd wrth newid yr hidlyddion.
- Sefydlu trefn **lanhau** newydd ar gyfer y safle neu'r lleoliad a phenderfynu sut y cânt eu darparu'n effeithiol o fewn yr oriau gweithredu a gynlluniwyd, er enghraifft bob dydd, gyda rhai arwynebau'n cael eu glanhau'n rheolaidd drwy gydol y dydd.
- Gwirio a oes angen ichi wasanaethu neu addasu systemau awyru, er enghraifft, er mwyn sicrhau nad yw'r lefelau awyru yn gostwng yn awtomatig gan fod nifer y bobl sy'n bresennol yn is na'r arfer.
- Ni fydd angen addasu'r rhan fwyaf o systemau aerdymheru. Fodd bynnag, lle bo systemau'n gwasanaethu sawl adeilad, neu os nad ydych yn siŵr, dylid gofyn am gyngor gan eich peirianwyr neu gynghorwyr gwresogi, awyru ac aerdymheru (HVAC).
- Defnyddio unrhyw systemau awyru naturiol fel drysau (heblaw drysau tân) a ffenestri lle y bo'n ymarferol er mwyn awyru gofodau caeedig.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://llyw.cymru/ymarfer-perfformio-chymryd-rhan-yn-y-celfyddydau-perfformio-canllawiau-ar-gyfer-dychwelyd-yn-raddol** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

5.2 Cadw'r amgylchedd yn lân

Er mwyn cadw'r amgylchedd yn lân ac atal achosion o drosglwyddo drwy gyffwrdd arwynebau halogedig, fel arfer bydd angen cymryd y mesurau rhesymol canlynol:

- Glanhau ardaloedd gwaith a chyfarpar yn aml rhwng eu defnyddio, gan ddefnyddio eich cynnyrch glanhau arferol.
- Glanhau gwrthrychau ac arwynebau a gaiff eu cyffwrdd yn rheolaidd yn aml, gan gynnwys peiriannau coffi neu hunanwasanaeth neu ddyfeisiau i'r staff a ddelir â llaw, a sicrhau bod trefniadau gwaredu digonol ar waith ar gyfer cynhyrchion glanhau.
- Glanhau gofodau a rennir fel gofodau awditoriwm, ardaloedd ymarfer a chefn y llwyfan yn drylwyr ac yn amlach.
- Gofyn i'r rheini sy'n berchen ar offerynnau a chyfarpar personol arall eu cadw'n lân, a pheidio â rhannu'r eitemau hyn ag eraill.
- Clirio gweithfannau a chael gwared ar wastraff ac eiddo o'r ardal waith ar ddiwedd dosbarth, ymarfer neu berfformiad.
- Os byddwch yn glanhau ar ôl achos hysbys neu achos a amheuwyd o COVID-19, dylech gyfeirio at y **canllawiau** penodol.

5.3 Hylendid – golchi dwylo, cyfleusterau glanweithdra a thoiledau

Er mwyn helpu pawb i olchi dwylo a chynnal lefelau hylendid **anadlol** da bob amser, fel arfer bydd angen dilyn y mesurau rhesymol canlynol:

- Defnyddio arwyddion a **phosteri** i feithrin ymwybyddiaeth o dechneg golchi dwylo da, yr angen i olchi dwylo'n amlach, osgoi cyffwrdd â'ch wyneb a pheswch neu disian i mewn i hances bapur a gaiff ei rhoi'n ddiogel yn y bin, neu i mewn i'ch braich os nad oes hances bapur ar gael.
- Darparu hylif diheintio dwylo mewn sawl lleoliad hygyrch yn ogystal ag ystafelloedd ymolchi. Dylid ystyried defnyddwyr cadeiriau olwyn wrth benderfynu lle y dylid gosod y rhain
- Gosod canllawiau clir ar gyfer glanhau a defnyddio toiledau er mwyn sicrhau

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://llyw.cymru/ymarfer-perfformio-chymryd-rhan-yn-y-celfyddydau-perfformio-canllawiau-ar-gyfer-dychwelyd-yn-raddol** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

eu bod yn cael eu cadw'n lân a bod pellter cymdeithasol yn cael ei gadw cymaint â phosibl.
- Gwella'r prosesau glanhau mewn ardaloedd prysur.
- Darparu mwy o gyfleusterau gwastraff a chasglu sbwriel yn amlach.
- Darparu cyfleusterau sychu dwylo – naill ai tyweli papur neu beiriannau sychu trydanol.

5.4 Trin propiau, offerynnau cerddoriaeth, cyfarpar technegol a gwrthrychau eraill

Er mwyn lleihau trosglwyddiad drwy ddod i gysylltiad â gwrthrychau, fel arfer bydd angen cymryd y mesurau rhesymol canlynol:

- Annog unigolion i olchi dwylo'n amlach a chyflwyno mwy o gyfleusterau golchi dwylo i weithwyr neu ddarparu hylif diheintio dwylo lle nad yw hyn yn ymarferol.
- Osgoi rhannu eitemau personol fel ffonau, gwefrwyr, pinnau ysgrifennu, a gofyn i'r rheini sy'n berchen ar eu cyfarpar personol eu hunain gymryd cyfrifoldeb am eu diheintio'n rheolaidd.
- Defnyddio storfa benodol ar gyfer casys offerynnau mawr; gofyn i gerddorion ag offerynnau llai o faint gadw eu casys o dan eu seddi.
- Osgoi rhannu cyfarpar proffesiynol lle bynnag y bo'n bosibl a rhoi labeli enwau ar gyfarpar er mwyn helpu i adnabod y defnyddiwr penodol, er enghraifft, camerâu, a gofyn i chwaraewyr offerynnau taro gynnal eu ffyn a'u gyrdd eu hunain.
- Sicrhau mai dim ond yr unigolyn sy'n defnyddio sgoriau cerddoriaeth, rhannau a sgriptiau a fydd yn eu trin.
- Sicrhau bod setiau radio a chlustffonau ychwanegol ar gael, gan benodi aelod o bob tîm i fod yn gyfrifol amdanynt yn ystod y cynhyrchiad, a sicrhau eu bod yn cael eu glanhau'n briodol os nad ydynt yn rhai untro.
- Os bydd yn rhaid rhannu cyfarpar, dylid ei ddiheintio'n rheolaidd (yn cynnwys unrhyw gasys pecynnu, dolenni, propiau, cadeiriau a standiau cerddoriaeth)
- Ystyried cyfyngu ar nifer y cyflenwyr wrth logi cyfarpar. Dylid trafod y cyfrifoldeb o lanhau offerynnau a gaiff eu llogi gyda'r cyflenwyr.
- Glanhau'r cyfarpar a gaiff ei logi, offer neu gyfarpar arall wrth gyrraedd a

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://llyw.cymru/ymarfer-perfformio-chymryd-rhan-yn-y-celfyddydau-perfformio-canllawiau-ar-gyfer-dychwelyd-yn-raddol** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

chyn iddo gael ei ddefnyddio am y tro cyntaf. Os bydd nwyddau'n cael eu dosbarthu cyn y bydd eu hangen, dylid eu storio mewn lleoliad glân a'u glanhau cyn eu defnyddio am y tro cyntaf.
- Creu mannau penodol ar gyfer casglu a gollwng eitemau lle y bo'n bosibl, yn hytrach na phasio cyfarpar fel propiau, sgriptiau, sgoriau a microffonau o law i law, a glanhau cyn ac ar ôl gollwng offer.
- Peidio â chaniatáu i'r gynulleidfa fynd ar y llwyfan na chyffwrdd cyfarpar, propiau, offerynnau, setiau na gwrthrychau eraill a ddefnyddir gan berfformwyr.
- Cymryd rhagofalon wrth drin cyfarpar trwm, yn cynnwys:
  - ail-werthuso gofodau er mwyn osgoi cael pobl yn gweithio yn agos at ei gilydd (ee defnyddio mwy o gerbydau i gludo nwyddau);
  - cynyddu'r defnydd o gyfarpar mecanyddol (fel cerbydau fforch godi) i osgoi cael niferoedd mawr o weithwyr yn gweithio'n agos at ei gilydd (ee codi casys trwm a golygfeydd);
  - defnyddio system baru gyson os bydd yn rhaid i bobl weithio yn agos at ei gilydd, er enghraifft, yn ystod gweithgareddau gweithio, codi neu gynnal a wneir gan ddau berson, na ellir eu hailddylunio;
  - lleihau'r achosion o gylchdroi tasgau a chyfarpar;
  - gweithdrefnau glanhau ar gyfer y rhannau o'r cyfarpar a rennir y byddwch yn eu cyffwrdd ar ôl pob defnydd, gan ystyried cyfarpar, offer a cherbydau.

5.5 Glanhau awditoria

Er mwyn lleihau'r risg o drosglwyddo'r feirws mewn awditoria, fel arfer bydd angen cymryd y mesurau rhesymol canlynol:

- **Glanhau** awditoria yn aml iawn, rhwng pob perfformiad fel arfer, gan roi sylw arbennig i arwynebau y mae dwylo'r gynulleidfa a gweithwyr yn debygol o ddod i gysylltiad â nhw fel drysau, breichiau seddi a chanllawiau.
- Amserlennu perfformiadau i neilltuo digon o amser i wneud y gwaith glanhau cyn i'r gynulleidfa nesaf gyrraedd.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://llyw.cymru/ymarfer-perfformio-chymryd-rhan-yn-y-celfyddydau-perfformio-canllawiau-ar-gyfer-dychwelyd-yn-raddol** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

6.0 Cyfathrebu

Bydd cyfathrebu da yn ffactor hanfodol wrth adfer hyder y cyhoedd. Mae hyn yn bwysig ar nifer o lefelau: yn eich sefydliad, ar gyfer ymwelwyr, defnyddwyr gwasanaethau a chynulleidfaoedd, ac ar gyfer cymunedau lleol.

Rhaid i sefydliadau gyhoeddi datganiad clir yn nodi eu cynlluniau i ailagor yn ddiogel a'r camau y maent yn eu cymryd i leihau'r posibilrwydd y caiff haint ei drosglwyddo. Dylai hyn gynnwys unrhyw amseroedd agor newydd ac unrhyw newidiadau i'r ffordd y gall pobl gael mynediad i'r lleoliad yn ddiogel. Mae hefyd yn bwysig adolygu gohebiaeth fewnol ac allanol yn aml er mwyn sicrhau ei bod yn effeithiol ac yn briodol.

Ar gyfer gohebiaeth fewnol, dylech:

- ymgysylltu â chyflogeion (gan gynnwys yr hunangyflogedig) yn uniongyrchol a hefyd drwy undebau llafur er mwyn datblygu unrhyw newidiadau i drefniadau gwaith a chytuno arnynt;
- cyflwyno sesiynau adsefydlu i gyflogeion ac i staff hunangyflogedig a datblygu 'sgyrsiau cymorth' (sgyrsiau arweiniol byr gyda gweithwyr ar unrhyw newidiadau i brosesau gwaith);
- cyfathrebu'n glir ac yn rheolaidd er mwyn gwella dealltwriaeth a chysondeb o'r ffordd y caiff ffyrdd newydd o weithio eu rhoi ar waith a pham mae hynny'n digwydd;
- darparu deunyddiau hyfforddi ar weithdrefnau newydd (ystyried sut y caiff y deunyddiau hyn eu darparu, yn cynnwys eu rhoi ar-lein er mwyn cynnal pellter cymdeithasol rhwng gweithwyr);
- canolbwyntio ar bwysigrwydd iechyd meddwl ar adegau o ansicrwydd, ac addasu dulliau cyfathrebu ac ymgysylltu yn unol â hynny;
- penderfynu sut y caiff canllawiau diogelwch newydd eu cyfathrebu i weithwyr cyflenwi, contractwyr, ac ymwelwyr eraill â'r safle.

Ar gyfer ymwelwyr, defnyddwyr gwasanaethau a chynulleidfaoedd, dylech wneud y canlynol:

- pwysleisio mai diogelwch ymwelwyr a gweithwyr sy'n cael blaenoriaeth;

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://llyw.cymru/ymarfer-perfformio-chymryd-rhan-yn-y-celfyddydau-perfformio-canllawiau-ar-gyfer-dychwelyd-yn-raddol** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

- cyfathrebu drwy'r cyfyngau cymdeithasol, gwefannau ac e-bost i'w helpu i baratoi ar gyfer eu hymweliad - gan rannu gwybodaeth am yr hyn y dylent ei ddisgwyl, pa ragofalon iechyd a mesurau cadw pellter cymdeithasol sydd ar waith, beth sydd ar agor ac ar gau, ciwio, capasiti llai, a'r profiad newydd i ymwelwyr, ee dim dehongliadau rhyngweithiol;
- hyrwyddo gofyniad i ragarchebu, systemau mynediad neu docynnau am ddim ar-lein neu brynu tocynnau (yn cynnwys opsiynau all-lein ar gyfer y rheini sydd heb fynediad i'r rhyngrwyd);
- hysbysu ymwelwyr am unrhyw newidiadau i weithdrefnau archebu ar gyfer unigolyn sydd â **risg** oherwydd y feirws neu'r rheini sydd â nodweddion gwarchodedig (sut y byddwch yn helpu pobl anabl, yr henoed a menywod beichiog er mwyn sicrhau y gallant gael mynediad i leoliadau mewn ffordd ddiogel, er enghraifft osgoi'r angen iddynt giwio);
- rhoi gwybodaeth ychwanegol i ymwelwyr sydd â nam ar eu golwg cyn ymweliadau o ran newid y trefniadau mynediad i adeiladau neu safleoedd a llwybrau newydd a mwy cymhleth i ymwelwyr;
- defnyddio negeseuon syml, clir a hawdd eu deall i esbonio canllawiau, gan ystyried grwpiau nad Cymraeg na Saesneg yw eu hiaith gyntaf o bosibl neu lle y gall fod angen fformatau eraill.

Ar gyfer cymunedau lleol, dylech wneud y canlynol:

- holi a yw eich cymuned leol yn bryderus ynghylch ailagor atyniadau i ymwelwyr a'r cynnydd cysylltiedig yn nifer y bobl sy'n teithio i'r ardal;
- gweithio'n agos gyda'ch cymuned leol i ddatblygu strategaeth a fydd yn hysbysu'r gymuned am eich cynlluniau i ailagor, ynghyd â rhoi tawelwch meddwl bod rhagofalon ychwanegol yn cael eu cymryd a'u monitro'n drylwyr;
- egluro pa drefniadau sydd ar waith ar gyfer rheoli niferoedd ac ymddygiadau ymwelwyr a pha drefniadau sydd ar waith ar gyfer gwrthdroi penderfyniad i agor os bydd angen;
- gweithio ar y cyd â chyrchfannau diwylliant a threftadaeth eraill yn eich ardal i anfon gohebiaeth wedi'i chydlynu, gan sicrhau bod yr un negeseuon neu negeseuon tebyg yn cael eu defnyddio a allai roi tawelwch meddwl.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://llyw.cymru/ymarfer-perfformio-chymryd-rhan-yn-y-celfyddydau-perfformio-canllawiau-ar-gyfer-dychwelyd-yn-raddol** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Cydnabyddiaethau

Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu'r canllawiau hyn ar y cyd â Chyngor Celfyddydau Cymru.

Cyfrannodd nifer o sefydliadau eu hamser a'u cyngor, yn cynnwys:

- Artis Community Cymuned
- Artswork Cymru
- Avant Cymru
- Ballet Cymru
- Band Arian Llaneurgain
- Band Biwmares
- Band Seindorf Biwmares
- Bectu
- Canolfan y Celfyddydau Taliesin
- Celf ar y Blaen
- Celfyddydau Anabledd Cymru
- Celfyddydau Gwirfoddol Cymru
- Cerdd Gymunedol Cymru
- Cerddorfa Ffilharmonig Caerdydd
- Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC
- Cerddorfa Symffoni y Fenni
- Citrus Arts
- Clwb Ifor Bach
- Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru
- Côr Bach Caerdydd
- Côr Meibion Dyffryn Tywi
- Côr Meibion Maelgwn
- Corws a Cherddorfa Opera Cenedlaethol Cymru
- Creu Cymru
- Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru
- Cwmni Theatr Taking Flight
- Cwmni’r Frân Wen
- Cymdeithas Bandiau Pres Gogledd Cymru
- Cymdeithas Corau Meibion Cymru

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://llyw.cymru/ymarfer-perfformio-chymryd-rhan-yn-y-celfyddydau-perfformio-canllawiau-ar-gyfer-dychwelyd-yn-raddol** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

- Cymdeithas Diwylliant a Chelfyddydau Butetown
- Cymdeithas Gorawl Crucywel
- Cyswllt Celf
- Dawns i Bawb
- Ensemble Cymru
- Equity
- Gofal Celf
- Hynt
- Impelo
- Making Music
- Migrations
- National Theatre Wales
- NEW Dance
- NoFit State Circus
- Plant y Cymoedd
- Plant y Cymoedd
- Sefydliadau amaethyddol
- Sinfonia Cymru
- Tanio
- Theatr Clwyd
- Theatr Genedlaethol Cymru
- Theatr Glan yr Afon, Casnewydd
- Theatr na nÓg
- Theatr y Sherman
- Theatr y Torch
- Theatrau Rhondda Cynon Taf
- Tŷ Cerdd
- Undeb y Cerddorion
- Yr Eisteddfod Genedlaethol
- Yr Ymddiriedolaeth Lleoliadau Cerddoriaeth

Hoffem ddiolch hefyd i nifer o artistiaid llawrydd am roi o'u hamser a rhannu eu cyngor.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://llyw.cymru/ymarfer-perfformio-chymryd-rhan-yn-y-celfyddydau-perfformio-canllawiau-ar-gyfer-dychwelyd-yn-raddol** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Ynghylch y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn gopi o'r dudalen we **Ymarfer, perfformio a chymryd rhan yn y celfyddydau perfformio: canllawiau ar gyfer dychwelyd yn raddol** a lawrlwythwyd.

Ewch i **https://llyw.cymru/ymarfer-perfformio-chymryd-rhan-yn-y-celfyddydau-perfformio-canllawiau-ar-gyfer-dychwelyd-yn-raddol** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch; darllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://llyw.cymru/ymarfer-perfformio-chymryd-rhan-yn-y-celfyddydau-perfformio-canllawiau-ar-gyfer-dychwelyd-yn-raddol** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.